YR YMOFYNYDD.

Rhif 72.] AWST, 1853. [Cyf. VI.

"PROFWCH BOB PETH; DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—PAUL.

Mewn cyhoeddiad a broffesa fod yn RHYDD ni ellir disgwyl i ni fod yn atebol am gywirdeb syniadau ein Gohebwyr."—Gol.

LLENYDDIAETH Y CYMRY YN Y CANOL OESOEDD.

O ESGYNIAD GRUFFYDD AB CYNAN HYD ESGYNIAD LLEWELYN AB IORWERTH.

(*Parhad o tud.* 154.)

HUD A LLEDRITH.

Yn y crybwylliad am wledd Gruffydd ab Rhys, dywedir iddynt "gynnal pob chwareuon Hud a Lledrith, a phob arddangos," &c.; ond nid wyf erioed wedi gweled un eglurhad beth a ddynodir gan y geiriau. Fel na fyddo i ereill lafurio dan yr un anhawsderau, gwnaf ymdrech i daflu ychydig o oleuni ar y matter.

Meddyliaf y cawn yma brofion fod y Cymry unwaith yn berchenogion ar fath o lenyddiaeth ag sydd yn awr wedi ei anghofio; ac hefyd eglurhad o'r amgylchiadau yn mha rai y cyfansoddwyd yr ymadroddion rhwng amrai o enwogion hanesyddol y Cymry. Wrth "Chwareuon Hud a Lledrith," deallaf, rhyw beth tebyg i'r *miracle plays* oedd gan genhedloedd ereill cyn cyfodiad y peth a elwir, *The Regular Drama*," ac o ba rai y tarddodd. Cadarnheir y dyb hon, gan y mynych ddefnyddiad gan y beirdd o'r gair "Miragl," mewn ystyr gyfattebol; a chan y ffaith fod rhai o'r hen firaglau yn awr ar gael. Wrth edrych dros hanes lenyddol Lloegr, cawn fod chwareudai wedi eu sefydlu yn Llundain, mor foreued ag O. C. 1180. Dywed William Fitzstephen, yn Hanes Bywyd Archesgob Becket, yr hwn a ysgrifenwyd rhwng 1170 a 1182, am sefydliadau o'r fath yn cael eu cynnal gan y myneich. Y mae Matthew Paris a Balæus (Historia Universitatis Parisiensis) yn dweud i'r Miragl perthynol â'r Seintes Catherine, gael ei chwareu yn Dunstable, mor foreuad ag O. C. 1119. Dywedir gan yr olaf nad oedd hwn yn beth newydd yn y byd; ac yn yr Annales Burtonenses, gwelwn fod chwareuwyr crwydrol yn ddigon cyffredin tua chanol y drydeddganrif-ar-ddeg. Mewn pethau ereill yr oedd y Cymry mor belled yn y blaen a'u cymmydogion; ac yr oeddent yn ymweled a Lloegr yn dra mynych. Nid oes, gan hynny, un annhebygolrwydd yn y tybiad uchod.

Methais eirioed ddeall beth oedd y cymhelliad i gyfansoddi'r "Ymddiddanion," am ba rai soniwyd eisioes; ond yn awr, gwna y dyb hon y peth yn eglur, ac y mae yn hawdd i ni amgyffred yr amgylchiadau o ba rai y tarddasant. Nis gwn a oes gweddillion cyflawnach i'w cael yn llyfrgelloedd cyfoethogion Cymry—gobeithaf fod rhai—ond o herwydd nad oes dim amgenach yn gyhoeddedig, rhoddaf fel enghraifft, yr "Ymddiddan rhwng Arthur Frenin, yn ei ieuenctid, a'i ail wraig Gwenhwyfar, yr hon oedd y ferch a ddygodd Melwas, Tywysog o'r Alban."—*Allan o'r Llyfr Gwyrdd.*

ARTHUR.

Dû yw fy march, a da dana,'
Ac er dwr nid arswyda;
A rhag un gwr ni chilia!

GWENHWYFAR.

Glas yw fy march o liw dail;
Llwyr ddirmygid mefl mawrair;
Nid gŵr ond a gywiro ei air.
Pwy a ferchyg, ac a saif?
Ac a gerdd ymlaen y drin?
Nid deil ond gŵr e, Cai hir ab Sefin.

ARTHUR.

Myfi a ferchyg, ac a sai;
Ac a gerdda yn drwm geulan trai:
Myfi y gwr a ddaliai Gai!

GWENHWYFAR.

Dyd wâs rhyfedd yw dy glywed;
Onid wyd amgen, no'th weled;
Ni ddelit ti Gai, ar dy ganfed.

ARTHUR.

Gwenhwyfar olwg eirian
Na ddifrawd fi; cyd bwyf bychan,
Mi â ddaliwn gant fy hunan.

GWENHWYFAR.

Dyd wâs! a du a melyn!
Wrth hir edrych dy dremyn;
Tybiais dy weled cyn no hyn!

ARTHUR.

Gwenhwyfar olwg wrthroch;
Doedwch i mi, os gwyddoch,
Yn mha lê, cyn hyn ym gwelsoch?

GWENHWYFAR.

Mi welais ŵr graddol o faint
Ar fwrdd hîr Celliwig yn Dyfnaint;
Yn rhannu gwîn i'w geraint.

ARTHUR.

Gwenhwyfar barabl digri!
Gwnawd o ben gwraig air gwegi,
Yno y gwelaist ti fi!

Heblaw yr ymddiddan uchod, y mae ereill o anianawd gwahanol; yn un o ba rai ceir ymddiddan rhwng Arthur a Chai, a Glew-lwyd Gavaelvawr.

ARTHUR.

Pa wr yw y Porthavr?

GLEWLWYD.

Glevlvid Gafaelfavr,
Pa wr a'i govin?

ARTHUR.

Arthur a Chai gwin.

GLEWLWYD.

Pa imdda genhit
Gwin goreu i'm bid
Ym tŷ ny ddoi
Onis gwaredy, &c.

Nid oes achos dweud wrth y darllenydd, mai at Arthur, a gwŷr y fordd gron, y cyfeirir yma, ac nid at Dderwyddiaeth, fel y tybia Davies, yn ei *Mythology of the Druids*. Er mwyn cael amrywiaeth, a dangos nodweddiad yr oes, rhoddaf rai o Englynion "Ymatreg Llywelyn a Garwerth," dau Saint yn Mhowys.

LLYWELYN.

Eiry mynyd, guynt am berth,
Canys Creaudyr nef am nerth,
Ae cysgu a wna Gwrnerth?

GWRNERTH.

Eiry mynydd, Duw yn bennav,
Canys attau guediav,
Nac ef, cysgu ni allav.

LLEWELYN.

Eiry mynyd gwynt am tŷ,
Kanys lleveri velly,
Beth Urnerth a wna hynny?

GWRNERTH.

Eiry mynyd guynt deheu,
Kanys traethaf prif eiryeu,
Tebekaf yu mae agheu, &c.

Er enghraifft o ymddiddan mewn iaith mwy coeth, a dyrys, cymmerwn yr un rhwng Taliesin a Merddin yr hwn ynghyd a'r llinellau rhagflaenol, sydd waith dynion diweddarach na hwynt, er nas gwyddom pwy oeddent y cyfansoddwyr, gadawaf allan y dechreuad, gan ddyfynu o'r canol.

TALIESIN.

Seith meib Eliffer, seith gwŷr ban broffer,
Seith gwaew ni ochel, yn ei seithran.

MYRDDIN.

Seith tân ufelin, seith câd, cyferbin,
Seithfed Cynvelin y pob cinhvan.

TALIESIN.

Seith gwaew gowanon, seith loneid afon,
O gwaed Cinreinion y dylanwon.

MYRDDIN

Seith ugain haelon a aethan yg wllwn—
Yn nghoed Celyddon y darfuan, &c.

Nid oes gennyf le i'r "Ymddiddan rhwng Taliesin ac Ugnach ab Mydno." Yn y dyddiau dedwydd hyn yr oedd adar yn siarad ac yn prydyddu yn gystal a dynion. Er enghraifft, wele "Englynion, Ymddiddan rhwng Arthur ab Uthur a'i nai Liwlod (neu Eliwlod) ab Madoc ab Uthur oedd farw, ac wedi ymrithio yn rhith eryr," allan o'r Llyfr Gwyrdd.

ARTH.

Y sy refedda gan wy fardd,
Ar flaen dâr a'i brig yn hardd—
Pa edrych Eryr, pa chwardd?

ERYR.

Arthur, bell glod oddiwes,
A'th lu llawenydd a'th les,
Yr Eryr gynt a'th weles.

ARTH.

Y sy ryfedda a du mur,
A'th ofynaf yn vesur,
Pa chwardd, pa edrych Eryr.

ERYR.

Arthur, bell glod yn hynt,
A'th llu llawenych dremynt,
Yr Eryr a'th weles gynt.

Ond beth bynag a feddylir am y dyb perthynol i'r Ymddiddanion, barnaf, fod miraglau yn cael eu harfer yn Nghymru; a dangosaf fod y dyb hon yn safadwy, oddiwrth y darnau canlynol allan o hen awdl Gymraeg, gan "Meredydd ab Rhosser i firagl o waith Sir Walter o Bryn Biga (Wysg), yr hwn firagl a elwir yn y Gymraeg Hud a Lledrith." Dyben y miragl oedd rhwymo y Diafol a'i ddwyn i drefn, gan ei fod yn dra anhywaeth yn y dref a'r gymmydogaeth; a gofynir gan y bardd—

"Pwy, wrth fuchedd rinweddawl,
O rym dysg a rwym y Diawl?"

Ac yna atteb Syr Walter—

"Dawngais mawr, dangos miragl;
Drygau myrdd, a'u ffyrdd yn ffagl!
Gwelais yn hon i'r gwaelod,
Gylch drygau beiau sy'n bod,
A'u diwedd; gwae o'u deall.

Amlwg i'm golwg fe gaid,
Athrylith y cythreuliaid.

Nid wyf wedi gweled o'r awdl hon, os awdl yw, ond a ymddengys yn nodiadau Ab Iolo ar "Colyn Dolphyn;" ond yr wyf yn credu pe gwelswn

yn gyflawn, y buasai yn ymddangos fod yr hynafiaethydd enwog wedi camsynied, ac mai nid awdl i firagl sydd ganddo mewn llaw, ond y miragl ei hunan. Gwna un camsynied pan y cyfieithir *Hud a Lledrith* wrth y geiriau annherfynol a chyffredin *illusion and phantasm*, gan fod math neillduol yn cael ei arwyddoccau; ac yr wyf yn ystyried ei fod wedi camsynied mewn dau beth. Yr oedd pethau o'r fath yn mhlith y Saeson (ceir un anghraifft adnabyddus yn *Comus* Milton); a chan fod y Cymry y pryd hynny yn blaenori mewn llenyddiaeth, paham na chredwn fod pethau o'r fath yn eu plith hwythau? Pe amgen, beth a feddylier wrth y geiriau "*chwareuon* Hud a Lledrith, a phob *arddangos?*"

SYLWADAU AR GYTHREULIAID.

(*Parhad o Tudal.* 159).

Mr. Ymofynydd,—Rhoddais yn fy llythyr diweddaf y rhesymmau ydynt yn ymddangos i mi dros y gred nad *angel* syrthiedig, wedi ymfalchio yn y nef a'i fwrw allan oddiyno, sydd i'w ddeall wrth y gair Satan yn yr Ysgrythyrau, ond rhwystrau a drygau o ba le bynnag y tarddant. Weithiau y mae y pethau hynny yn cael eu personoli, a llefaru am danynt, fel pe bae ewyllys at weithredu ganddynt. Arferiad aml yn yr Ysgrythyrau, yn gystal a llyfrau ereill, ydyw personoli pethau difywyd. Er siampl "Y mae'r gwynt yn chwythu lle y mynno," &c.; "Plant y goleuni, a phlant y tywyllwch," &c. Mae "Doethineb yn gwaeddi, a deall yn llefaru," &c., yn Diar.

Yn awr yr ydwyf yn cynnyg rhai sylwadau ar y gair Groeg *Diabolos;* a'r peth cyntaf sydd gennyf i'w ddywedyd, ydyw, fod y dysgcedigion oll yn dywedyd, mai yr un ystyr ydyw a'r gair Hebraeg Satan, mor agos ag y gellir cael gair mewn un iaith i arwyddo yr un peth a gair o iaith arall; gan hynny, nid ydyw o angenrheidrwydd, nag oddiwrth ei darddiad na'i arferiad yn arwyddo angel syrthiedig; ond rhwystrau yn ffyrdd rhinwedd o ba le bynnag y cyfodant. Y lle cyntaf y mae son am ddiafol yn y Bibl ydyw Mat. iv., lle y mae hanes Crist yn cael ei demptio, ond gan nad ydwyf yn bwriadu ysgrifennu traethawd ar demptiad ein Harglwydd, ar hyn o bryd, nid ydwyf yn gweled ei bod yn ofynedig oddiwrthyf, tra ar gwestiwn arall, i ddywedyd dim yn ychwaneg nag mai gweledigaeth sydd yma, fel y sylwais o'r blaen, yn gosod allan y temptasiynau o flaen ein Harglwydd Iesu Grist, fel y byddai "wedi ei demptio ym mhob peth yr un ffynyd a ninau," ac nid hanes angel syrthiedig.

Af, gan hynny, ym mlaen i'r xiii. o'r un Efengyl, y 39 ad., lle y mae y geiriau hyn—"A'r gelyn yr hwn a'u hauodd hwynt yw diafol." Esboniad yw o ddammeg yr had da yn cael ei hau gan ddyn yn ei faes. (Gwel y 24 ad. ac ym mlaen). Mae yn dra eglur, mai Crist yn dysgcu ffyrdd bywyd tragywyddol, neu yn dwyn y *cyfammod newydd* i ddynolryw, sydd i'w ddeall wrth y "dyn a hauodd had da yn ei faes,"—y dynion, fel y dywed ein Harglwydd ydynt yn "gwrando y gair ac yn ei ddyall," ydyw yr had da; a'r efrau neu plant y drwg ydyw rhagrithwyr a chyfeiliornwyr; pa un a rhai yn dysgcu philosophyddiaeth y dwyrain, neu un Alecsandria dan enw Cristnogrwydd, neu ryw wag ddychymmygion ereill y fyddont; a'r *Diafol* fel y mae yn y 39 ad., neu'r *gelyn ddyn*, fel y mae yn y 28 ad., ydyw y drwg sydd mewn cyfeiliornad, sef, rhwystrau yn ffordd taeniad y Grefydd Gristnogol yn cael eu personoli, ac nid angel syrthiedig.

Y lle nesaf y ceir y gair *diabolos* ydyw Mat. xxv. 41—"Ewch oddiwrthyf rai melldigedig i'r tân tragywyddol, *yr hwn* a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion." Nid oes yma etto un son fod y diafol a'i angylion wedi bod unwaith yn trigfannu yn nefoedd y gogoniant, ac wedi codi gwrthryfel yno, ac am hynny eu bod wedi cael eu bwrw i lawr i'r pwll diwaelod am eu balchder, a'u gwrthryfel. Cofied y darllenydd etto mai dau air Groeg heb eu cyfieithu ydyw *diafol* a'i *angylion*. Ystyr y gair cyntaf ydyw *taflwr yn erbyn*, neu *cyhuddwr*; ac ystyr y llall ydyw *cennadon*; ond y mae pawb yn addef fod y blaenaf o'r un ystyr a Satan, ac am hynny mai rhwystr ydyw. Drwg a'i offerynnau ydyw yn bersonoledig.

Braidd y mae eisiau sylwi ar Luc viii. 12, am mae yr un ddammeg sydd yma ac yn Mat. xiii. 3—8. Gofalon y byd, a'i arferion, twyll cyfoeth a phethau o'r fath sydd yma i'w deall wrth diafol. A Judas am ei fod ar fradychu ei Arglwydd, sydd yn cael ei alw yn ddiafol yn Ioan vi. 70., medd yr ysgrifenydd yn yr adnod nesaf—"*Eithr efe a ddywedasai am Judas Iscariot*, mab *Simon, canys hwn oedd ar fedr ei fradychu ef.*" Yn y 44 ad. o'r viii. o Ioan, mae Crist yn dywedyd wrth y Phariseaid—"O'ch tad diafol yr ydych chwi," &c. Nid ydyw y gwanaf ei ddeall, yr wyf yn credu, ddim yn deall y geiriau hyn yn llythyrennol, neu ynte y mae yn rhwym o ddywedyd fod banywod Judea yn cael plant o'r diafol yn lle o'u gwŷr priod. Yn y 34 ad. o'r bennod hon mae pechod yn cael ei bersonoli, ac y mae yn cadw gweision *(slaves)*.

Arferiad gyffredin ydyw galw dynion call yn blant y goleuni; a'r annoethion yn blant y tywyllwch; ond nid oes neb erioed, yr wyf yn credu, wedi meddwl fod na goleuni na thywyllwch yn fodau byw, yn berchennogion gwragedd a phlant. Meddwl Crist, fe ymddengys ydyw, mai gelynion y gwirionedd, ac erlidwyr gweision Duw ydoedd y Phariseaid, plant pob drwg. Trachwant y deg ar hugain arian ydyw y diafol roddodd yng nghalon Judas i fradychu Crist, yn y xiii. 2, o Ioan.

Cyn dywedyd dim am y gallu i iachau y rhai oedd wedi eu gorthrymmu gan y diafol, a dderbyniodd Crist, fel y dywed Pedr yn Act. x. 38, nid anfuddiol ydyw sylwi, fod yr Iuddewon a'r Cenedl-ddynion yn amser Crist yn credu fod clefydau yn cael eu dwyn ar ddynion gan ysbrydion neu eneidiau anfarwol dynion wedi marw, a chan fodau dychymmygol eraill, megis y *demiourgoi* a'r *aeons*, math o is-dduwiau da a drwg, a chan fod yr Ysgrythyr wedi ei hysgrifenu er mwyn argyhoeddi y fath ddynion, rhaid oedd iddi fod yn ddealladwy iddynt; ac er mwyn hyn y mae yr Iesu a'i apostolion yn arferu iaith sathredig y wlad, fe allai, heb gredu dim o honi. Mae hyn yn beth cyffredin iawn yn ein hoes ni yng Ngwent a Morganwg. Dywedir am ddyn o demmerau gwylltion ac anfoddlon ei gyflwr, "Un lloerig budr yw ef;" ond nid oes neb yn meddwl mai y lloer sydd yn ei wneuthur felly. Yn yr un modd mae ysgrifenwyr yr ysgrythyrau oddiar ddychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon, yn arferu y iaith a ddysgcodd eu brodyr a'u teidiau yn y caethiwed gan philosophyddion y dwyrain. Yr ydoedd y rhai hynny yn dywedyd mai bodau ysbrydol oeddent yn peri clefydau. Dylem gadw ar gof mai nid dyfod i ddysgcu beth ydyw achos clefydau ar farwolion y llawr wnaeth Crist, ond i ddysgcu ffyrdd bywyd tragywyddol, i ddiddimmu angeu, ac i ddwyn bywyd ac anfarwoldeb i'r goleuni. Gan hynny buasai allan o'i neges ef i ddysgcu, mai peth yn nhrefn natur ydyw pob rhyw glefyd, y mae y natur ddynol yn ddarostyngedig iddo. Pan

gan hynny y mae Pedr yn dywedyd fod Duw wedi eneinio "Iesu o Nazareth a'r Ysbryd Glân, ac a nerth: yr hwn a gerddodd o amgylch, gan wneuthur daioni, ac iachau pawb a'r oedd wedi eu gorthrymmu gan ddiafol: oblegid yr oedd Duw gydag ef;" yr hyn sydd i'w ddeall ydyw, fod Crist wedi derbyn gallu oddiwrth Dduw i iachau y cleifion, &c., yn brawf mai Awdwr natur a'i hanfonodd ef a chennadwri y nef at ddynolryw.

Mae yn eglur nad angel syrthiedig sydd i'w ddeall wrth diafol yn y 10 ad. o'r xiii. o'r Actau, am y swynwr; Barjesu ydyw ei fab, un o'r Iuddewon, medd Luc yr hanesydd.

Man nesaf y mae y gair dan sylw i'w gyfarfod, ydyw Eph. iv. 27,—"Ac na roddwch le i ddiafol?" hynny ydyw, na roddwch achos i elyn y gwirionedd, erlidiwr croes Crist, i'ch goganu. Dywed yr Apostol yn vi. 11, "Gwisgwch am danoch holl arfogaeth Duw, fel y galloch sefyll yn erbyn cynllwynion diafol." Ond darllen yr adnod nesaf fel hyn,—"Oblegid nid yw ein hymdrech ni yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau, yn erbyn awdyrdodau, yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd;" gwelir yn eglur beth ydyw y diafol hwn etto—Gelynion y gwirionedd ydynt.

Yn ei lythyr cyntaf at Timotheus iii. 6, 7, mae Paul yn son am "ddamnedigaeth diafol," a "magl y diafol," o flaen un "newyddian yn y ffydd," pe y gwnelid ef yn esgob. Y meddwl ydyw y byddai gelynion Cristnogaeth yn cael lle i gablu pe ymchwyddai un newydd ei dderbyn i blith Cristnogion; ac nid fod angel syrthiedig yn ymdrechu ei faglu. Yn yr 11 ad., dywed—"*Y mae yn rhaid i'w* gwragedd yr un modd fod yn onest, nid yn ENLLIBAIDD;" neu pe peidid cyfieithu y gair yma fel mannau ereill, nid yn DDIAFLESAU fyddai, canys *diabolous* sydd yn y Groeg. Nid angylesau syrthiedig, mi wnaf yn dda, sydd i'w ddeall yma. Drwg wedi ei bersonoli ydyw diafol yn y 26 ad. o'r ii. bennod o'r llythyr hwn. Yn y iii. 3, o'r ail lythyr, mae Paul yn prophwydo y bydd dynion yn y dyddiau diweddaf yn "*enllibaidd*," *diaboloi*, diaflaid, a pheidio cyfieithu y gair. Ond nid oes neb yn meddwl mai angylion syrthiedig fyddant.

Wrth Titus, yn yr ail bennod a'r 3ydd adnod, dywed Paul fel hyn—"Bod o'r hynaf wragedd yr un ffunud mewn ymddygiad fel y gweddai i sancteiddrwydd, nid yn *enllibaidd*;" DIABOLOUS etto.

Yn ei lythyr at yr Hebreaid, dywed yr awdwr (pwy bynnag ydyw) yn ii. 14,—"Oblegid hynny gan fod y plant yn gyfrannogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfrannog o'r un pethau; fel trwy farwolaeth y dinystrai efe yr hwn sydd a nerth marwolaeth ganddo, hynny yw, diafol." Os deallir angel syrthiedig wrth diafol yn y lle hwn, rhaid deall hefyd fod bywydau dynolryw yn ei law ef, ac nid yn llaw Duw, yr hyn sydd gableddus i'w feddwl; o ganlyniad rhaid chwilio am ryw ystyr arall i'r gair *diabolos*. Y mae'r esboniad canlynol o waith Samuel Prime, Yswain, o Whitton, yng ngolwg y Parchedig Thomas Belsham (gwel ef ar y lle) yn symmyd ymaith bob anhawsdra. "Y mae y diafol, yr hwn sydd weithiau yn bersonolrwydd o egwyddor y drwg, yn y lle hwn yn debygol yn cael ei roddi am y gallu sydd yn cyhuddo, ac yn condemnio, hynny ydyw, y GYFRAITH, yr hon sydd yn cyhuddo, yn profi yn euog, ac yn cyhoeddi dedryd damnedigaeth, ar bob un sydd yn ddeiliad i'w hawdyrdod, a'r rhwn sydd yn torri ei gorchymmynion hi; a hawdd y gallai lanw calonnau pawb ydynt yn attebol o flaen ei gorsedd a dychryn. Y gyfraith sydd fel hyn yn meddu nerth marwolaeth,

a'r hon wedi ei dileu trwy farwolaeth Crist, mae pawb ydynt yn credu ynddo ef, yn cael eu rhyddhau oddiwrth ei dedryd o golledigaeth hi, a'u gollwng yn rhyddion o ofn angeu."

Mae Iago yn cyngori Cristnogion fel hyn—"Gwrthwynebwch ddiafol, ac efe a ffy oddiwrthych." Drwg wedi ei bersonoli ydyw y diafol hwn.

Mae Pedr yntau yn dywedyd—"Byddwch sobr, gwyliwch: oblegid y mae eich gwrthwynebwr diafol, megis llew rhuadwy yn rhodio oddiamgylch, gan geisio y neb a allo ei lyngcu." Gelynion Cristnogrwydd, yn Iuddewon a Chenhedloedd, oedd yn ceisio dala gwallau ar gredinwyr, ydyw y meddwl yma. Drwg wedi ei bersonoli mae Ioan yn ei lythyr cyntaf, iii. 8, yn feddwl wrth ddiafol.

Mae Judas yn y 9ed ad. yn dywedyd—"Eithr Michael yr Archangel pan oedd efe, wrth ymddadleu a diafol, yn ymresymmu ynghylch corph Moses, ni feiddiodd ddwyn barn gabledd arno, eithr efe a ddywedodd, Cerydded yr Arglwydd dydi." Mae yn dra thebygol mai gweledigaeth Zechariah sydd yn y iii. 1, 2, oedd gan Judas mewn golwg; ac ar hyn sylwais yn fy llythyr diweddaf ar 158 tudalen o'r *Ymofynydd*.

Y lle diweddaf a ddygir i brofi bodoldeb ei fawrhydi uffernol, a'r lle hefyd a ystyrir yn benderfynol ar y ddadl, yw Dat. xii. 7—10,—"A bu rhyfel yn y nef; Michael a'i angylion a ryfelasant yn erbyn y ddraig, a'r ddraig a ryfelodd a'i hangylion hithau; Ac ni orfuant, a'u lle hwynt nis cafwyd mwyach yn y nef. A bwriwyd allan y ddraig fawr, yr hen sarph, yr hon a elwir Diafol a Satan, yr hwn sydd yn twyllo yr holl fyd: efe a fwriwyd allan i'r ddaear, a'i angylion a fwriwyd allan gydag ef. A mi a glywais lef uchel yn dywedyd yn y nef—Yr awr hon y daeth iachawdwriaeth a nerth, a theyrnas ein Duw ni, a gallu ei Grist ef; canys cyhuddwr ein brodyr ni a fwriwyd i'r llawr, yr hwn oedd yn eu cyhuddo hwy ger bron ein Duw ni ddydd a nos."

Gallwn ddychymmygu fy mod yn clywed llawer darllenwr yn dywedyd yn awr—"Wel, dyna fe yn bendant o'r diwedd, y rhyfel a'r bwriad allan, a phob peth ond balchder Satan, yr hwn a'i gyrrodd i wrthryfela." Gan bwyll; pa le mae y son ei fod wedi nagu *addoli yr ail berson yn y Drindod?* Nid oes yma un sill am y fath beth. Ond peth sydd fwy i'r pwrpas na hynny, ydyw yr amser y bu y rhyfel hwn yn y nef. *Cyn* creu daear na dyn y dywedir i'r angylion, a bregethir i'r byd yn ein hoes ni, i gael eu bwrw allan, ac o ganlyniad nid hanes am y rhai hynny sydd yma; o herwydd yr oedd y ddraig sydd yn Dat. yn cyhuddo dynolryw "ger bron ein Duw ni ddydd a nos" cyn iddi gael ei bwrw allan. Rhaid am hynny fod hyn ryw bryd ar ol "cwymp Eden."

Mae Ioan yn dywedyd mai peth oedd i gymmeryd lle ar fyrder, ym mhlith pethau ereill, yw bwriad y ddraig allan, ac os felly, nid oedd wedi ei bwrw allan pan cafodd Ioan y weledigaeth yn Ynys Patnos; ac yr oedd Crist wedi ei groeshoelio er ys mwy na thriugain mlynedd cyn i Ioan fod yn yr Ynys honno "am air Duw."

Prophwydoliaeth sydd yn y Datguddiad am "y pethau sydd raid eu dyfod i ben ar fyrder."

Mae Lowman o'r farn mai oddeutu blwyddyn yr Arglwydd 476 y bu y rhyfel hwn; a Dr. Priestley, mai yn amser Cystenyn Fawr y bu y peth; ond nid oes un sicrwydd ei fod wedi cymmeryd lle etto. Y mae pawb sydd yn derbyn y llyfr hwn fel *gweledigaeth yr Apostol Ioan*, yn cytuno mai prophwydoliaeth am sefyllfa yr eglwys ar y ddaear hyd amser ail ymddangosiad

Crist ydyw. Llyfr a ymddengys wedi ei selio rhag dyn, ydyw y llyfr hwn, ac nid ydyw na Luther na Chalfin wedi ceisio torri ei seliau ef, yng nghyd ac aneirif ereill o'r dynion enwocaf a ysgrifenasant esboniad ar y Beibl. Y mae y sylw canlynol ar odre y ddalen (lle y mae y 9ed ad.) gan Lowman—"Y mae llawer o esbonwyr yn meddwl fod y fuddugoliaeth hon ar Satan, yn yr hon y gosodir ef allan wedi cael ei daflu i lawr o'r Nefoedd, ynghyd a'i angylion, yn arwyddo Gallu Paganaidd Rhufain—fod Eilun-addoliaeth wedi colli y rhagorfraint o fod yn sefydliad gwladol trwy yr Ymerodraeth Rufeinig." Hwn ydyw yr esboniad mwyaf rhesymol a welais i o'r brophwydoliaeth ryfedd hon. Mae y coll-amser *(anachronism)* yn ein gwarafun i feddwl mai Diafol Milton a'i gyd-ddychymmygwyr oedd yng ngolwg Ioan, pa un bynnag ai yr henuriad neu yr Apostol ydoedd, o herwydd *nis gwyddys.*

Yr wyf yn gweled Mr. Ymofynydd yr â fy llythyr yn rhy faith, cyn y gallwyf ddangos o ba le y tarddodd y gred ym modoldeb y Diafol; rhaid gan hynny rhoddi heibio ar hyn o bryd.

J. Jones.

Y WEINIDOGAETH YN NGHYMRU.

Y mae y weinidogaeth Gristnogol—yn ei hamcan a'i gofyniadau—yn destun mor bwysig, mor helaeth, ac mor gynnwysfawr, fel ag y byddai yn gwbl ofer i ni geisio gwneuthur cyfiawnder â'r pwngc o fewn terfynau cyfyngedig yr *Ymofynydd,* hyd yn oed pe buasem yn alluog ac yn gymmwys i'r gwaith. Nid y'm yn amcanu cynnyg y fath beth, ar hyn o bryd o leiaf. Os bydd i'r ychydig grybwylliadau canlynol i lwyddo i osod meddyliau ein darllenwyr ar waith i fyfyrio yn ddifrifol ar y pwngc, bydd yn dda iawn genym. Ac os y llwyddant i gyffroi rhyw un, neu ryw rai o brofiad a gwybodaeth, i ysgrifenu ar y testun, yn ei berthynasau âg amgylchiadau presenol ein hoes a'n gwlad, gwell etto. Y mae y rhan fwyaf o'n darllenwyr wedi cynefino â gweinidogaeth y gair, dan amgylchiadau mwy neu lai ffafriol. Byddai yn chwith ag yn flin ganddynt i gael eu hymddifadu o'r fraint. Ond o herwydd y cynefindra hyn, dichon fod amcan, gwerth, a defnyddioldeb y weinidogaeth, i fesur wedi diange ar eu sylw. Y mae cyfnewidiadau mawr yn cymmeryd lle yn ein dyddiau ni. Dichon fod llawer yn tybied fod eisieu cyfnewidiad cyfattebol ar drefn y weinidogaeth gyhoeddus; a dichon fod rhai yn barnu y dylai y sefydliad bellach roddi lle i ryw drefn newydd ar ddysgu'r bobl.

Diau fod llawer o wallau ac amherffeithrwydd yn nglŷn a'r gweinyddiad o'r swydd. Y mae lle i feio ac y mae lle i wella. Bydd effeithioldeb y weinidogaeth i ymddibynu i raddau mawr ar y dyb fydd gan y bobl yn nghylch ei hamcan a'i buddioldeb. Gan hyny y mae o bwys neillduol fod y cyfryw dyb wedi ei seilio ar ymchwiliad ac ystyriaeth bwyllog.

Ymddengys i ni fod eisieu tost i ryw un, yn y dyddiau hyn, i osod y matter ger bron y cyhoedd yn y fath fodd ag i ennill eu dwys ystyriaeth; ac yn enwedig ger bron y cynulleidfaoedd hyny yn Nghymru ag ydynt yn sefyll dros "hawl a dyledswydd pob dyn i farnu drosto ei hun, mewn matterion crefyddol, heb gael ei rwymo gan unrhyw gredo ddynol." Y cynulleidfaoedd y cyfeiriwn attynt, ydynt gan mwyaf, os nid i gyd, yn Undodiaid. Y mae yn hyfryd genym weled fod y rhan amlaf o'r cynulleid-

faoedd hyn yn parhau i fod yn lluosog ac yn ddylanwadol yn eu cymydogaeth; ac eu bod yn meddu ar gyfran nid bychan o zêl a bywiogrwydd yn gystal ag o gyfoeth y byd hwn; o'r hyn y mae yr addoldai hardd a chyfleus ag y maent yn ystod y blynyddau diweddaf wedi eu hadeiladu ar eu traul eu hunain, yn brawf digonol.

Ond y mae yn flin genym ragweled y bydd i lawer o'r rhain i fod maes o law heb weinidog, oddieithr cael rhyw fesurau a threfn newydd; neu ynte iddynt gynnal y weinidogaeth yn eu plith ar drefn wahanol i'r hyn sydd yn bresenol. Rhaid ymostwng i ganlyniadau pethau, gan nad pa mor annymunol y byddont. Nid yw'r byd wedi cael ei osod i aros yn yr un man. Ond ymddengys, modd bynag, fod tueddiad yr oes bresenol at ychwanegu cymmwysderau dysgawdwyr cyhoeddus, yn hytrach nâ hebgor eu gwasanaeth. A ydyw yn debygol y bydd yr eglwysi hyny ag y bu Jenkin Jones, Llwyd o Frynllefrith, Dafis Castell Hywel, Josiah Rees, ac enwogion eraill o'r fath yn gweinidogaethu iddynt, i ymfoddloni, yn ddiymdrech a dirwgnach, ar drefn y brodyr Quakeraidd, a bod heb weinidogion; neu ynte i rannu y swydd rhwng dirprwyaeth (committee) o'r gynulleidfa, fel y cynnygwyd rai blynyddau yn ol, ond yn aflwyddianus, gan y *Free-thinking Christians*.

Ein crêd ni yw, fod galwad—a galwad uchel—am Weinidogion yr Efengyl, yn y dyddiau hyn; ac y bydd mwy o alwad etto, o herwydd profi mwy o'r eisieu, pan fyddo y tô presenol wedi cael eu symud. Yn y cyfamser, y mae yn llawn bryd i'r sawl a ddygant zêl dros wirionedd Cristnogol, i ddeffroi, ac i ymgyngori, beth a ellir, a pheth ddylai gael ei wneuthur yn ngwyneb yr amgylchiad. Trwy gadw y gwyliedyddion ar ddihun â chydâ'u gwaith priodol, y mae rhagluniaeth yn gofalu am ddiogelwch y ddinas.

Ond beth yw gwaith gweinidog? Beth yw'r angen sy'n gofyn, os oes angen, i gadw y swydd weinidogaethol ar ei thraed? A pha rai yw y cymwysderau angenrheidiol i'r iawn weinyddiad o honi? Dyma'r cwestiynau fyddent yn ymgynnyg yn naturiol, ac yn gofyn yr ystyriaeth flaenaf mewn traethawd rheolaidd ar y pwngc. Pa fodd bynag, gan nad ydym ar fedr ysgrifenu y fath draethawd, rhaid ymfoddloni ar ychydig sylwadau, yn fyr; ond, gobeithio, i'r pwrpas.

Pe ceid attebion boddlonol i'r cwestiynau uchod, byddai y ffordd yn fwy rhwydd i gael penderfyniad ar gwestiynau eraill ag ydynt yn dwyn perthynas a'r gwahanol drefniadau, arferiadau, a chroes-honniadau ynghylch y peth hyn ag ydynt wedi bod ac yn parhau hyd y dydd heddyw, ymhlith eglwysi crêd; megis yr *awdurdod* a dybier ei fod yn perthyn i'r swydd—beth sydd yn gwneud i fynu alwad i'r weinidogaeth—beth yw y parotoad (*training*) dymunol neu anghenrheidiol i weinidogion ieuaingc—a pheth yw dyledswyddau cynulleidfaoedd tuag at y weinidogaeth.

Yr oedd yr hen arferiad ag oedd gan ein teidau Presbyteraidd, yr hon sydd yn para gyda'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr, o gadw cwrdd gweinidogion ar sefydliad gweinidog, yn rhoddi cyfleusdra da dros ben, at ddwyn y cwestiynau uchod mewn modd cyffrous dan ystyriaeth y bobl. Ond barnwyd, mae'n debyg, fod y drwg ag sydd yn gyssylltedig â'r fath gyfarfodydd, yn gorbwyso y da a ellid ei gael oddiwrthynt; ac felly rhoddwyd heibio yr arferiad, serch, wrth hyny, colli y cyfleusdra cyfeiriedig.

A diau fod yr enw "urddiad," a'r dyb a gadarnheid felly o angenrheidrwydd y fath beth at wneuthur y dyn ieuangc dewisedig yn gyflawn at waith y weinidogaeth, yn sawri yn gryf o dwyll-offeiriadaeth, ac yn tueddu

i annog a chadarnhau coel-grefydd yn ein gwlad. Pa fodd bynag, gan nad yw y cyfryw ddefod bellach yn cael ei chadw i fynu yn ein plith, ymddengys ei bod yn fwy angenrheidiol i alw sylw dwys at gwestiynau ag ydynt yn dwyn perthynas â defnyddioldeb a pharhad y weinidogaeth Gristnogol.

Y cwestiwn blaenaf ag sy'n galw am ein hystyriaeth, ydyw, Beth yw priod waith gweinidog yr Efengyl? Dywedwn ei *briod* waith, am ei bod o gryn bwys i ddiosg y cwestiwn oddiwrth bob peth nad yw yn anhebgorol iddo.

Y mae gan weinidog lawer o waith, a hwnw yn waith pwysig, ag sydd yn rhwymedig arno i'w gyflawni, fel dyn ac fel Cristion, yr un modd ag ar bob dyn a phob Cristion arall; y fath ydyw, dylanwadu fel y gweddai i ganlynwr Crist, ar y teulu, y gymydogaeth, a'r eglwys y byddo yn perthyn iddi—trwy addysgu, cyngori, a rhoddi pob esiampl da. Diosger y cwestiwn oddiwrth y pethau hyn ag ydynt yn ddyledswyddau rhwymedig ar bob Cristion; a'r hyn a erys yn ôl—hyny fydd priod waith gweinidog yr Efengyl. A beth fydd hyny ond *Pregethu y Gair, a bod yn Enau i'r Gynulleidfa yn yr addoliad cyhoeddus a cher bron y cyhoedd?*

Fe ddeallir yn rhwydd, gobeithio, nad ydym wrth hyn am gyfyngu gweinidog at hyn yna o waith, nac yn ei esgusodi am beidio gwneuthur pob daioni a allo, mewn gwlad ac eglwys. Disgwylir yn gyfiawn oddiwrtho, yn ol a fyddo ei brofiad a'i gyfleusderau, i flaenori mewn pob ymdrech dda. Ond mai ei briod waith ef yw, pregethu'r gair a bod yn enau'r gynulleidfa yn yr addoliad cyhoeddus, ac er egluro ac amddiffyn egwyddorion crefydd ger bron y byd. Ac os hyn yna ydyw ei swydd a'i briod waith ef, yna ymddengys yn eglur ddigon, fod y *rhwymedigaeth* i gadw y swydd weinidogaethol ar ei thraed, yn ymddibynu ar ei *buddioldeb*, neu ar yr adeiladaeth grefyddol nas ceir, neu nis ceir yn gystal mewn ffordd arall. Nid y'm ni yn proffesu gwybod am un rhwymedigaeth arall; nac am un angen am barhad y weinidogaeth oddieithr yr angen parhaus y sydd o gael rhyw un cymmwys a phennodol i weinyddu addysg grefyddol i'r bobl, ac i'w gwasanaethu yn rheolaidd ac i'w harwain yn yr addoliad ar y Sabbath, ac ar brydiau eraill.

Pan ddarfyddo yr angen hwn, ac nid cyn hyny, y bydd yn bryd i'r swydd weinidogaethol ddarfod hefyd. Ac felly, am hyn o beth, fel am bethau eraill, rhaid gadael i'r cynulleidfaoedd farnu drostynt eu hunain. Ond dylai y sawl sydd eisioes yn gwybod digon, gofio, fod eisiau moddion a threfn tuag at addysgu ereill. Nid yw y dynion doeth mor gyffredin ag y gallesid tybied eu bod; ond y mae yr ieuengctyd ac eraill sydd yn gofyn addysg, gyda ni bob amser.

Fe welir modd bynag nad y'm ni yn honni unrhyw ddylanwad neu awdurdod offeiriadol i weinidogion yr Efengyl; eithr pell iawn oddiwrth hyny. Pe buasai rhyw wirionedd, neu rywbeth heblaw rhyfyg a thwyll offeiriadaeth yn yr honniad a wneir gan y Pabyddion ac eraill, fod gweinidogion awdurdodedig, sef yr offeiriaid, yn cael eu hawdurdod oddiwrth Dduw trwy olynyddiaeth Apostolaidd; a'u bod yn cael eu gwneuthur, trwy urddiad esgobawl, yn gyfryngwyr rhwng dynion a Duw, neu yn fath o bibellau cyssegredig, trwy y rhai y cyfrenir gras ac iechydwriaeth i'r bobl; ni fuasai dim i'w wneud ond plygu i'r cyfryw awdurdod. A phe buasai crefydd yn beth cenedlaethol, ac nid personol, gallesid gadael y cwestiwn o barhad a threfn y weinidogaeth yn hollol yn nwylaw llywodraeth y tir. Ond nid

felly y mae yn bod. Nid oes wir grefydd ond y sydd yn cyfodi oddiar argyhoeddiad y deall a'r gydwybod. Ac "un Cyfryngwr y sydd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu;" yr hwn ei hun sydd wedi ein gwarafun i "alw neb yn Rabbi, am mai brodyr ydym ni oll;" a'r hwn hefyd, dywed yr Apostol Pedr, a wnaeth y credinwyr oll "yn offeiriaid i Dduw." Proffes yn cyfodi oddiar argyhoeddiad, yw "y graig ar yr hwn yr adeiladodd Crist ei eglwys." Nid oes un awdurdod, gwladol nac eglwysig, yn meddu hawl gyfiawn i ymyraeth yn y matter. Ond rhydd i bob cynulleidfa o gredinwyr i drefnu eu matterion eglwysig, yn ol a welont hwy ei fod yn gymmwys ac yn gydweddol âg egwyddorion yr Efengyl; ond gwneler pob peth er adeiladaeth. Rhaid gadael yr ail gwestiwn—yr angen o barhâd y weinidogaeth—gyda chymaint a hyn.

Y mae'r trydydd cwestiwn—y cymwysderau angenrheidiol i iawn weinyddu swydd gweinidog—yn agor i faes mwy helaeth fyth. Ond y mae yn amlwg ei bod yn rhaid iddo gael ei benderfynu ar yr un egwyddor a'r un blaenorol, ac yn y pendraw, gan yr un awdurdod. Ymddengys mai yr unig reol gyffredinol a ellir ei gosod i lawr ydyw hon; sef, bod pob rhinwedd a chymwysder ag sydd yn anhebgorol i Gristion ffyddlon a llafurus, ac anhebgorol hefyd i'r hwn fyddo yn cael ei neillduo i bregethu'r gair. Mae yr hyn y dywed Paul wrth Timotheus, ei bod yn ofynol i esgob fod, yn gymwysiadol at bob oes a phob amgylchiad. O ran cymwysderau eraill, y mae lle i amrywiaeth barn; megis, pa gymaint o ddysgeidiaeth, a pha fath, ddylai y pregethwr fod yn feddianol arno. Bydd gofyniadau, neu ddisgwyliadau, rhai cynulleidfaoedd, ond odid, yn uwch nag eiddo eraill. Mor belled ag y mae ein gwybodaeth a'n profiad ni yn cyrraedd, y mae y rhagfarn, yn mhlith yr eglwysi cyfeiriedig, os dim, ar y cyfan, yn gryf o blaid cael gweinidogion dysgedig.

Ac nid rhyfedd hyny, ychwaith, ond ystyried y dyled mawr ag y mae yr eglwysi hyn dano i lafur gweinidogion ag oeddent wedi cael manteision dysgeidiaeth. Y mae eraill, nad ydynt yn gosod cymaint o bwys ar fod eu gweinidogion yn ddysgedig: digon yw, eu bod yn hyddysg yn yr Ysgrythyrau ac yn blaenori ar y gynulleidfa mewn gwybodaeth gyffredinol. A rhaid cydnabod nad yw medru darllen yr ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol, yn anhebgorol i bregethwr yr Efengyl. Ac o herwydd amgylchiadau adnabyddus, byddai y fath weinidog allan o gyrraedd amryw o'n heglwysi. Nid ydynt wedi cael profiad oddieithr yn achlysurol, o werth a buddioldeb y cyfryw ddysgeidiaeth. Ac y maent yn gwneuthur yn dda i ddewis y doniau goreu sydd o fewn eu cyrraedd. Ac y mae lle i ofni y gorfydd ar y cynulleidfaoedd hyny yn ein plith ag sydd yn awr yn gwerthfawrogi dysg, i gymeryd at gyfielyb drefn; o herwydd, fel yr ymddengys i ni, fod y cyfryw barch at ddysg yn cyfodi yn fwy oddiar arferiad nac oddiar argyhoeddiad o'r angenrheidrwydd o hono at achosion y weinidogaeth. Pe na bai felly, credwn y buasai y rhai hyny yn eu mysg ag sy'n meddu ar zel a dylanwad, i ddangos mwy o ofal am y moddion angenrheidiol tuag at barhad y fath weinidogaeth—mwy o gydymdeimlad tuag at fyfyrwyr ieuainge yn eu hanawsderau; a mwy o sylw o ddynion ieuainge o ddawn a duwioldeb a ddichon fod yn cyfodi yn y cynulleidfaodd, ac yn chwenychu ymbarotoi at weinyddu y swydd weinidogaethol; ond neb yn eu hannog—neb yn estyn llaw o gymmorth iddynt.

Mae yr argraffydd yn ein rhybuddio fod y lle yn brin—am hyny rhaid i

ni derfynu ar hyn o bryd, gyda dau neu dri o sylwadau byrion. Diau fod yr addysg a'r cwrtaith meddyliawl a dderbyn myfyriwr diwyd, mewn athrofa a fyddo dan olygiad dynion o ddysg a duwioldeb, yn gymwysder neillduol at y weinidogaeth, ac yn debyg o fod o fendith gyffredinol. Ond nid yw dysg yn unig ddim yn ddigon. Am y cymwysderau eraill, megis, medr a dawn i ymadroddi, a diwydrwydd ac ymarweddiad da, bydd y bobl ar eu dewisiad o weinidog, yn debyg o ffurfio barn deg. Ond pwy sydd i benderfynu p'un a ydyw yr ymgeisydd yn meddu ar ddigon o ddysg ai nad yw?

Gofalir am y diffyg hwn gan y gyfundrefn Henadurol (*Presbyterian*); yn ol pa un ni chaniateir i neb fod yn ymgeisydd am y swydd o weinidog, hyd nes byddo wedi rhoddi prawf ger bron holwyr cymmwys a diduedd—nid o gywirdeb ei farn crefyddol—ond o'i fod yn feddianol ar y radd honno o ddysg a gwybodaeth ag a'i cymmwysa i fodd yn bregethwr ac amddiffynydd y ffydd.

I.

TRAETHAWD AR Y GEIRIAU PRYNEDIGAETH, PRIDWERTH, PWRCAS, &c.

Bydd yn orchwyl o ddefnyddioldeb nid bychan, os ymdrechwn i wneud esponiad, cyd-unol á chanol swn a meddwl cyffredinol yr ysgrythyr, ar y geiriau *Prynedigaeth, Pridwerth, Pwrcas,* fel ag y maent yn cael eu cyfleu at yr hyn a wnaed gan ein Iachawdwr. I'r pwrpas hwn rhaid i ni sylwi, na ddarfu i'r ysgrifenwyr sanctaidd, yn un modd, na dyfeisio iaith iddynt eu hunain, nac arferyd geiriau a geiriau mewn ystyr neillduol, anadnabyddus i awdwyr cyffredin eu hamser. Yr oeddent yn ysgrifenu i gael eu deall; ac yn ganlynol a fenthycciasant eu ffurfiau o ymadrodd oddiwrth yr opiniynau a'r arferion oeddent yn tyccio yn mysg dynion.

Arfer hen genhedloedd oedd dal yn garcharorion yr estroniaid annedwydd a osodai damwain, neu anffawd rhyfel, yn eu gallu, i'w gwerthu fel caethion; a pheidio rhoddi fynu eu hawl iddynt ar un ammod, ond y taliad o *bridwerth* nodedig yn ol ewyllys y gorthrymwr. Fel hyn hwy a *bwrcasid* gan *feistri* eraill; neu a *brynid yn ol* gan y rhai yr oeddent yn anwyl iddynt; y rhai oeddent yn rhoi *pris* am danynt, ac yn dyfod yn berchennogion arnynt, yn yr un modd ag ar un math arall o *feddiant*. At yr arfer gwbl-adnabyddus hon y mae'r apostol yn cyfeirio, pan y mae efe yn dywedyd, "I Iesu Grist roddi ei hun megis pridwerth am danom, fel y'n *prynai* oddiwrth bob *anwiredd;*" (Tit. ii. 14.) oddiwrth *bechod*, y person dychymmygol gan yr hwn yr oeddem wedi ein *cymmeryd*, ac i'r hwn yr oeddem yn *gaeth-weision:* ac fel y'n purai ni iddo ei hun, megis pobl *briodol*, ei *feddiant*, awyddus i *weithredoedd* da; parod, megis ffyddlon *gaeth-weision* ein *meistr* newydd, i gyflawni y gweithredoedd da a roddai efe i ni i'w gwneuthur. Bydd yn fwy tebygol mai hwn yw cywir ddeongliad geiriau Paul, pan ystyriom fod yr Hen Destament yn desgrifio gwaredigaeth yr Israeliaid allan o'r Aipht yn yr un iaith yn gymmwys; a phan y cadarnhaom yr hyn sydd yn barod wedi ei ddweud ar y pwnge o waredigaeth oddiwrth bechod trwy Iesu Grist, â phrofion diamheuol o'r Testament Newydd.

Yn yr Hen Destament yr ydym yn darllain fod plant Israel *mewn gwirionedd* yn gaeth-weision yn yr Aipht. "Myfi yw'r Arglwydd eich Duw, yr hwn a'ch dygais chwi allan o dir yr Aipht, rhag eich bod yn gaeth-weision iddynt," (Lef. xxvi. 13). "Yna dywed wrth dy fab, ni a fuom yn gaeth-weision i Pharao," (Deut. vi. 21.) Gwlad yr Aipht yn yr un modd a elwir, "Tŷ y Caethiwed," (Deut. v. 6); teulu yn yr hwn yr oeddent wedi bod yn gaeth-weision.

Pan waredodd yr Hollalluog hwynt oddiwrth y gwir gaeth-wasanaeth hwn, trwy wyrthiau, ac arwyddion, a rhyfeddodau, fe ddywedir *mewn dull gyffelybiaethol*, iddo eu prynu, eu pwrcasu, a'u rhyddhau trwy dalu pridwerth am danynt. Y mae Jehofa yn gorchymyn i Moses, "Am hynny dywed wrth feibion Israel, myfi a'ch rhyddhaf

o'u *caethiwed* hwynt, ac a'ch *gwaradaf* (prynaf) â barnedigaethau mawrion," (Ecs. vi. 6.) "A pha un genedl ar y ddaear," medd Dafydd, (2 Sam. vii 23), "sydd megis dy bobl, megis Israel, yr hon yr aeth Duw i'w *gwaredu (prynu) yn bobl iddo ei hun*—y rhai a *waredaist (brynaist)* i ti *o'r Aipht*, oddiwrth *y Cenhedloedd a'u duwiau*." "Ofn ac arswyd a syrth arnynt—nes myned o'r bobl a *ennillaist* (neu a bwrcasaist) ti trwodd," (Ecs. xv. 16.) Y mae y deddfwr Iuddewig yn llefain allan, "Ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd ac angall? Onid efe yw dy dad a'th *brynwr?* Onid efe a'th wnaeth ac a'th sicrhaodd? (Deut. xxxii. 6.) "Onid ti yw'r hwn—a wnaethost ddyfnderoedd y môr yn ffordd i'r *gwaredigion (prynedigion,*)* i fyned trwodd?" (Es. li. 10.) Mewn cyffelyb fodd y mae'r prophwyd yn rhag-ddywedyd wrth ferch Seion, "Ti a ai hyd Babilon, yno y'th *waredir* (*brynir),* yno'r *achub* (*y pryn*) yr Arglwydd di o law dy elynion," (Micah iv. 10.)

Oddiyma y mae'r enw *gwaredydd (prynwr)* yn fynych iawn yn cael ei roddi i Jehofa, Arglwydd y lluoedd, y Tad, Sanct Israel. (Ps. xix. 14; lxxviii. 35; Es. xli. 14; xliv. 6; lxiii. 16; Jer. i 34). Ac y mae ei gyfryngol weithredydd, ei was Moses, yn cael ei anrhydeddu gan Stephan, yn ol marwolaeth Crist, â'r enw *gwaredwr (prynwr)* (*liwtrótén.* Act. vii. 35.)

Hefyd y mae y pris a dalwyd ar yr achlysur gan yr Hollalluog am yr Israeliaid, yn cael ei grybwyll gan y prophwyd. "Myfi a roddais yr Aipht yn *iawn* drosot, Ethiopia a Seba am danat. Er pan aethost yn werthfawr yn fy ngolwg, i'th ogoneddwyd, a mi a'th hoffais; am hynny y rhoddaf ddynion am danat ti, a phobloedd dros dy einioes di," (Es. xliii. 3, 4.) "Yn rhâd yr *ymwerthasoch*, ac nid âg arian y'ch *gwaredir (prynir†)*" (Es. liii. 3.)

Mewn canlyniad i'r *prynedigaeth* a'r *pwrcasiad* hyn, yr oedd yr Iuddewon yn cael eu galw yn *gaeth-weision* Jehofa, *yn drysor* priodol, perthynol iddo ei hun. "Canys *gweision* i mi yw meibion Israel: fy ngweision ydynt, y rhai a ddygais o dir yr Aipht;" (Lef. xxv. 42, 55). "Yn awr gan hynny, os gan wrando y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod, chwi a fyddwch yn *drysor* priodol i mi o flaen yr holl bobloedd; canys eiddof fi yr holl ddaear," (Ecs. xix. 5.) "Yr Arglwydd dy Dduw a'th ddewisodd di i fod yn bobl *unig* iddo ei hun," (Deut. vii. 6.) "Ond yr Arglwydd a'ch cymmerodd chwi, ac a'ch dug chwi allan o'r pair haiarn, o'r Aipht, i fod iddo ef yn *etifeddiaeth*, fel y gwelir y dydd hwn," (Deut. iv. 20.); pobl ag oedd ef yn gyfrif yn *feddiant* iddo.

Ar eu dyfodiad i *feddiant* Jehofa, fe orchymynir iddynt adael eu *gwasanaeth* blaenorol, a glynu wrth eu *meistr* presennol. "Yr Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a wasanaethi——Na cherddwch ar ol duwiau dyeithr," (Deut. vi. 13, 14.)

Yn flaenorol i'w dechreuad ar eu cyttundeb newydd. Moses a *sancteiddiai'r* bobl, ac a *olchai* eu dillad, (Ecs. xix. 14) mewn cyfeiriad at eu bod pryd hynny wedi eu puro oddiwrth bob halogiad. Hwy a orchymmynid, ac a galonnogid wedi'n, trwy annogaethau rhagorol i ymgadw, o hynny allan, oddiwrth eilun-addoliaeth, a'r gwŷdon ‡ oeddent yn cyd-fyned âg ef. "Myfi yw'r Arglwydd eich Duw chwi; *ymsancteiddiwch* a byddwch *sanctaidd;* o herwydd sanctaidd ydwyf fi; ac nac aflanhewch eich eneidiau wrth un ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear. Canys myfi yw'r Arglwydd a'ch dug chwi o dir yr Aipht, i fod yn Dduw i chwi," Lef. xi. 44, 45. A'r pwrpas cyffredinol i'r hwn y prynodd yr Arglwydd hwynt, ac y derbyniodd hwynt megis ei *weision* oedd, fel yr ufuddhaent i'w lais; y deuent yn frenhiniaeth o offeiriaid, (Ecs. xix. 6), yn genhedlaeth sanctaidd, yn bobl rinweddol, awyddus i weithredoedd da. "Ac yr awr hon, Israel, beth y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ofyn gennyt, ond ofni'r Arglwydd dy Dduw, a rhodio yn ei holl ffyrdd, a'i garu ef, a gwasanaethu yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid; cadw gorchymmynion yr Arglwydd a'i ddeddfau, y rhai yr wyf yn eu gorchymyn i ti y dydd hwn er daioni i ti? Enwaedwch chwithau ddienwaediad eich calon, ac na chaledwch eich gwarr mwyach. Canys yr Arglwydd eich Duw ni dderbyn wyneb, ac ni chymmer wobr. Yr hwn a farna'r amddifad a'r weddw; ac sydd yn hoffi'r dyeithr, gan roddi iddo fwyd a dillad. Hoffwch chwithau'r dyeithr; canys dyeithriaid fuoch

* † Saesneg, *ransomed.* ‡ Drygioni.

yn nhir yr Aipht. Yr Arglwydd dy Dduw a ofni; ac efe a wasanaethi, wrtho ef hefyd y glyni; Efe yw dy fawl, ac efe yw dy Dduw, yr hwn a wnaeth i ti y mawrion a'r ofnadwy bethau hyn; y rhai a welodd dy lygaid," Dat x. 12, 13, 16—21.

Oddiwrth yr ymadroddion ydwyf wedi eu tynnu allan o'r ysgrythur, hawdd yw canfod y modd y darfu i'r meddwl gwreiddiol o fod yr Israeliaid yn *wir* gaeth weision i Pharao, ganghennu allan, a llywodraethu iaith *gyffelybiaethol* yr ysgrifenadau sanctaidd. Am hyn y dywedir, mewn ystyr draws-symmudol, i'r Hollalluog i'w prynu hwynt; iddo roddi pridwerth am danynt, a chael hawl ynddynt fel ei feddiant: iddo eu cymhwyso, trwy buredigaeth, at ei wasanaeth. a gosod iddynt waith i'w gyflawni iddo ef megis eu meistr. Fel hyn yr ydym yn cael ein rhwymo i ddysgu gwirioneddau perthynol i'r Bod dwyfol, a'i oruchwyliaethau mewn iaith *amhriodol*, fenthyccedig oddiwrth arferion dynol. Ni all neb dybied i Dduw mewn ystyr briodol, brynu'r Iuddewon, a thalu *pris* am danynt i Pharao, ac i ddelwau'r Aipht, neu i'r rhai'ny a'u cadwent hwy yn nghaethiwed Babilon. Pan yr ydym yn darllain, iddo ef roddi cenhedloedd am danynt, a phobloedd yn iawn neu yn bridwerth drostynt, ni allwn ni ddim deall ond yn unig i'w rhydd-did gael ei brynu iddynt, trwy ddadymchweliad a distryw eu gormeswyr. Heblaw hynny, gellir sylwi, y dywedir i Jehofah *waredu (brynu)* Abraham, (Esa. xxix. 22.); i'r hyn ni all fod un meddwl amgen, nag i'r patriarch gael ei ddwyn allan o Wlad oedd yn gaeth i eulunod; a chael, trwy gredu yn Nuw, gyda bwriad i ufuddhau iddo, ei gyfiawnhau, hy. y., ei waredu o gaethiwed y pechodau, a'r coel-grefyddau, â'r rhai yr oedd ef wedi bod yn gynnefin.

Etto ymhellach, y mae gennym siamplau yn yr Hen Destament, lle nid yw y bod oddiwrth yr hwn y mae y caeth-weision dan ein sylw yn cael eu prynu, ond person dychymmygol yn unig; cyneddf, ac nid gweithredydd. Y mae Jacob yn deisyf ar Dduw, ger bron yr hwn y rhodiodd ei dadau, yr hwn a'i porthodd ef trwy ei holl fywyd, yr angel a'i *gwaredodd (prynodd) ef*, (Gen. xlviii. 16.) oddiwrth bob *drwg*, i fendithio ei hiliogaeth. Fel hyn yr ydym yn darllain, fod Duw yn *gwaredu (prynu)* bywyd dynion *o ddistryw*, [Ps. ciii. 4.]; o feddiant, neu o *law, uffern*, neu y *bedd*, Ps. xlix. 15. *Jehofah* a wared [bryn] Israel oddiwrth ei holl *anwireddau*, a'r tlawd oddiwrth *dwyll* a *thrawsder*, Ps. cxxx. 8; lxxii. 14.

Ni allwn yn fanteisiol iawn ddyfod yn awr i esponio y rhes honno o eiriau cyffelybiaethol ag ydym yn barod wedi eu hadrodd. "Crist a roddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd." Ni bydd dim ychwaneg na throedio yr un tir, yn gymmaint ag i 'sgrifenwyr y Testament Newydd fenthycca eu ffurfiau o ymadrodd, mewn anneirif siamplau, oddiwrth yr Hen. Yma, yn gystal ag yn y siamplau ydym wedi eu dwyn, y mae *anwiredd* yn cael eu ddarlunio megis person, i'r hwn yr oedd dynion wedi eu caethiwo, ac oddiwrth yr hwn yr oeddent i gael eu prynu.* Ac na fydded i hyn i gyfodi syndod ynom: o herwydd fe all y prawf mwyaf diamheuol gael ei ddwyn, fod *pechod* yn cael ei bersonoli fel hyn trwy'r holl Destament Newydd. "Pwy bynnag, medd Iesu, sydd yn gwneuthur pechod, y mae efe yn *was* i *bechod*," Ioan viii. 34. Y mae efe yn yr un lle yn darlunio *gwirionedd* megis yn gwneuthur ei ddysgyblion yn *rhyddion;* ac yn annog yr Iuddewon i ddyfod o'u nifer hwynt, oblegid, yn ol eu cyfraith hwy, nid oedd yn angenrheidlol i gaeth-was aros ei holl fywyd yn nhŷ ei berchennog; nac iddynt *hwy* 'chwaith aros yn dragywydd yn weision yn nheulu pechod. Y mae'r apostol yn dywedyd wrth y Rhufeiniaid, na ddylent rhagllaw *wasanaethu* pechod, neu fod yn gaethion iddo, [Rhuf. vi. 6]; na ddylai pechod deyrnasu yn eu cyrph marwol hwy, na meistrioli arnynt. "Oni wyddoch,

* Yn awr ymysg dynion, y mae carcharorion yn cael eu rhyddhau trwy daliad, a'r rhai fyddont wedi eu cymmeryd yn gaethion yn cael eu hadbrynu oddiwrth gaethiwed y gallu hwnnw ag sydd yn eu cadw mewn dalfa.—Y maent yn cael eu hadferu i'w blaenorol rydd-did dan y tywysog, deiliaid naturiol yr hwn ydynt.—Y maent yn cael ei prynu yn ol, neu eu rhyddhau â swm o arian, yr hon swm sydd bob amser yn cael eu thalu i'r gallu hwnw yr hwn sydd yn cymmeryd y carcharor yn gaeth, ac yn ei gadw mewu rhwymau, gan mai pris ei rydd-did yw; a gwrthun yw tybied y pris hwn yn cael ei dalu i'w dywysog ei hun, yr hwn nid yw nac yn ei gadw, nac yn dymuno ei gadw yn garcharor, ond yn ei dderbyn fel ei eiddo ei hun.—*Ludlam's Essays, Essay* i. *p.* 9

ebe fe, mai i bwy bynnag yr ydych yn eich rhoddi eich hunain yn weision i ufuddhau iddo, pa un ai i *bechod*, ynte i *ufudd-dod?* Megis ag y rhoddasoch eich aelodau yn *weision* i *aflendid* ac *anwiredd;* felly yr awr hon rhoddwch eich aelodau yn *weision* i *gyfiawnder*. Pan oeddech yn *weision pechod, rhyddion* oeddech oddiwrth *gyfiawnder;* Wedi eich *rhyddhau* oddiwrth *bechod*, a'ch gwneuthur yn *weision* i *Dduw*, y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteiddrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol. Canys cyflog *pechod* [neu y gyflog a delir gan bechod] yw marwolaeth."

Yn y bennod nesaf y mae ef yn darlunio'r drygionus megis "wedi eu gwerthu, fel *caeth-weision*, dan *bechod*," megis wedi eu *caethiwo* i *ddeddf* y *traws-arglwydd* meistrolgar hwnw." Dyma siamplau digonol i'n hargyhoeddi, fod y gynneddf o bechod yn cael ei darlunio yn y Testament Newydd, megis person, meistr, pen-arglwydd, yn rhoddi cyfreithiau i'w gaeth-weision. Oddiwrth y penadur tybiedig, y perchennog dychymygol hwn, y cafodd dynol-ryw eu *prynu*, eu *pwrcasu* gan Grist. Efe a'u *prynodd* hwynt, ganddo ef â *phris*. Efe a roddodd *iawn* neu *bridwerth* drostynt—ei hun—trafferth gweinidogaeth lafurus—ei fywyd—ei waed. "Ti a'n prynaist ni i Dduw—*trwy dy waed*." Porthwch eglwys yr Arglwydd yr hon a *bwrcasodd* ef â'i *briod waed*.* Y mae'r holl ddesgrifiad yn gysgodawl, ac nid yw i'w ddeall mewn un modd amgen na phwrcasiad yr Israeliaid gan Dduw, trwy roddi'r "Aipht yn iawn, Ethiopia a Seba am danynt."

Ond yn mha fodd y cafodd dynion eu pwrcasu oddiwrth bechod, a'u prynu oddiwrth anwiredd? Y troedigion cyntaf, y rhai oeddent wedi arwain rhan o'u bywydau mewn anwybodaeth Iuddewaidd a Chenhedlig, oeddent yn cael maddeuant rhad am y troseddiadau oeddent wedi myned heibio, ar eu gwaith yn cofleidio Cristnogrwydd.† Yr anhaeddedig faddeuant hwn oedd yn cael ei roddi gyda golwg ar eu diwygiad rhagllaw: ac i'w tynnu odditan lywodraeth eu harferion drwg. Yr oedd "maddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen trwy ddyoddefgarwch Duw." Yr oeddent yn cael eu gwaredu oddiwrth bob ofn a gyfodai oddiar hynny. Mewn perthynas i'r amser i ddyfod, cryfion oedd yr annogaethau i ufudd-dod a gynnygid gan ein Harglwydd, a nerthol oedd ei siampl ei hun; ac yr oedd y gobaith teccaf yn dyfod i'r golwg, na roddai dynion mwyach mo'u haelodau yn gaeth-weision i aflendid ac anwiredd, i'r pwrpas o weithredu yr hyn sydd anghyfreithlon; ond y rhoddent eu haelodau yn weision i gyfiawnder, gyda golwg i berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw.

Trwy gyhoeddi, gydag awdurdod, faddeuant yr holl droseddiadau blaenorol; a thrwy alw dynion i edifeirwch, ar y gobaith am anfarwoldeb gogoneddus; fe ddywedir hefyd am ein Harglwydd ei fod yn *puro* ei ddysgyblion. Efe a fu farw ar y groes yn y dygiad yn mlaen o'r gwaith caredig oedd wedi ei gymmeryd arno; efe a fu farw, nid yn wir i ostegu digofaint y Duwdod, ond i addysgu trwy ei siampl yr ymroddiad a'r perffaith gariad hynny a ofynir oddiwrthym ni; efe a fu farw i gyfodi drachefn mewn prawf o'i awdurdodiad, ac i roddi ernes o fywyd i ddyfod, cynnaliaeth mawr ein hymdrechiadau. Fe ddywedir gan hynny iddo ef roddi "*ei hun* i'n *puro* ni," [Tit. ii. 14.]; ac fe ddywedir wrthym fod "*Gwaed* Iesu Grist yn ein *glanhau* ni oddiwrth bob pechod," Ioan i. 7.

Mewn canlyniad iddo waredu dynion oddiwrth eu caeth-wasanaeth i anwiredd, y

* Act. xx. 28. Fe wyr y dysgedig yn dda na ddylai y testun yn y man hyn fod, *eglwys Dduw*, ond *eglwys yr Arglwydd*, neu *Grist*. Er bod crybwylliad am waed, nid oes dim cyfeiriad at un peth perthynol i aberth, nac yn y testun hwn, nac yn Dat. v. 9., ond yn unig haeriad i Grist roddi ei *einioes*. (Canys y gwaed yw'r einioes, Deut. xii. 23.) "Ei *waed* mewn ffordd rydd (neu anghywrain) o lefaru, a elwir yn bris ein pryniad, yn gymmaint ag i'w ymdrechiadau ef i ddiwygio'r byd, gosti iddo ei fywyd."—*Graham*, p. 36.

† Nid oedd eu gwaith hwy yn cofleidio Crist'nogrwydd yn dwyn dim maddeuant iddynt am neb pechodau ag nad oeddent yn eu gadael. Y pechodau a *wnaethid o'r blaen*, ond *pryd hynny* wedi eu gadael, oeddent yn cael eu maddeu. Trwy *ddysgu* dynion i ymwadu ag annuwioldeb *yn unig*, y mae'r Efengyl yn dwyn iddynt faddeuant pechodau. Ac nid yw proffes o gred yng Nghrist o un lles i ddynion, nac yn rhoddi iddynt un sylfaen i hyderu y cânt eu cymmeradwyo gan Dduw, mewn un mesur, ond i'r graddau y mae yn cael effaith da ar eu buchedd.—*Y Cyfeithydd.*

mae ef yn cael ei ddarlunio megis wedi prynu *pobl briodol iddo ei hun*; yn yr un modd yn gymmwys ag yr ydym wedi sylwi, i'r Israeliaid ddyfod yn berchenogaeth Jehofah, pan waredwyd hwy o gaethiwed yr Aipht. Y mae'r Apostol yn dywedyd wrth y Corinthiaid, "Chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw." Ar yr olwg hon y mae Duw a Christ yn UN.* Duw a ddyfeisiodd, a Christ a gyflawnodd y bwriad o ryddhau dynol-ryw oddiwrth y caeth-wasanaeth, yn yr hwn yr oeddent wedi eu maglu. Yn unol â hyn, fe ddywedir am Iesu, iddo eu prynu hwynt I DDUW, [Dat. v. 9.]; a'r Hollalluog ei hun a ddesgrifir megis yn cwpla'r pwrcas; megis *yn rhoddi* ei unig-anedig Fab am danynt, [Ioan iii. 16.]; ac fe orchymmynir iddynt ogoneddu Duw yn eu corph ac yn eu hysbryd, y rhai, yn awr, sydd eiddo Duw, 1 Cor. vi. 20. Oddiyma yr ydym yn gweled priodol ddechreuad yr enw wrth yr hwn y mae Crist'nogion yn cael eu galw—gweision, neu gaeth-weision Duw a Christ. Y maent yn ol arfer yr hynafiaid yn cael eu darlunio, fel wedi eu prynu â phris ganddynt hwy, megis eu perchenogaeth a'u meddiant. Ac y mae Pedr, wrth rag-ddywedyd ymadawiad rhai a'r ffydd, ac a'r ymarferiad Grist'nogol, yn eu desgrifio hwy megis *yn gwadu*, yn gwrthod eu hufudd-dod i'r *meistr a'u prynodd hwynt*, 2 Pedr ii. 1.

Y mae'r Apostol yn hysbysu i ni, y dyben neillduol i'r hwn y gwnaed y pwrcas hwn. Sef, fel y byddai y personau, oeddent wedi dyfod yn berchenogaeth ac yn gaeth-weision i Grist, yn awyddus i *weithredoedd* da, [Tit. ii. 14.]; ac ar bob achlysur yn ofalus i gyflawni eu dyledswydd megis *gweision* Duw. "Chwychwi ydych rywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth, pobl briodol; fel y mynegoch rinweddau yr hwn a'ch galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef," 1 Pedr ii. 9. Ni allwn ni ddim llai na sylwi etto ar fawr gyffelybrwydd y ddau ddesgrifiad a roddwyd, y naill gan Moses, o ddyben Duw yn galw'r Israeliaid allan o'r Aipht; ŷ llall gan ysgrifenwyr y Testament Newydd, o'i bwrpas ef yn amlygu Crist'nogrwydd. Ei olwg yn y ddwy oruchwyliaeth oedd yr un, a'r unig olwg a allwn ni dybied yn gydunol â'i nattur ardderchog ef—dwyn yn mlaen sancteiddrwydd a rhinwedd foesol.

Ni a chwanegwn rai geiriadau o'r Testament Newydd i gadarnhau'r hyn sydd wedi ei ddywedyd. Fe ddywedir wrth y Galatiaid, fod "Crist wedi eu *llwyr-brynu* [Saes. *redeem*] hwynt oddiwrth *felldith y ddeddf*," [iii. 13.] Y *fendith* a'r *felldith* oeddent sefydliadau tymhorol y gyfraith wladol Iuddewig. Pan oedd yr Hollalluog, gan hynny, megis Pen-arglwydd y corph gwladol hwnnw, yn maddau pob trosedd oedd wedi myned heibio, yr oedd y gyfraith yn cael ei diarfogi; a Christ trwy gyhoeddi y maddeuant hwnnw, a brynodd oddiwrth ei mhelldith hi, y rhai'ny ag oeddent yn agored i'w chospedigaethau. Fe ddywedir wrthynt mewn man arall "eu bod hwy mewn *caethiwed* dan *wyddorion y byd* hyd oni ddaeth Crist i *brynu* y rhai oeddent dan y ddeddf," [iv. 3—5.] Ar yr amser hwnnw nid oeddent mwyach yn gaeth-weision i ddefodau coel-grefyddol, ac "i'r rhai wrth nattur nid oeddent dduwiau."

Pan y mae St. Paul yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, yn cyfeirio at yr amser y bydd i'r meirw gael eu cyfodi yn anllygradwy, ac y bydd i'r rhai byw fyddo'n aros, wisgo anfarwoldeb, y mae ef yn hysbysu i ni, y caiff dynolryw yn ol hyn eu *rhyddhau o gaethiwed llygredigaeth* i *rydd-did* gogoniant plant Duw, [Rhuf. viii. 21, 28.]; fod y Crist'nogion boreuol yn disgwyl y mabwysiad, sef *prynedigaeth y corph*, [neu *o'r corph.*] A thrachefn y mae ef yn dysgu'r Hebreaid, [ii. 15.] "I Grist, trwy farw i gyfodi drachefn, waredu y rhai oeddent trwy *ofn marwolaeth*, dros eu holl fywyd dan gaethiwed." Yma yr ydym yn gweled melldith y ddeddf, llygredigaeth, ac ofn marwolaeth, y *meistri* oddiwrth y rhai yr oedd eu caeth-weision i gael eu *prynu*, ac i'r rhai y mae'n rhaid tybied yn gyffelybiaethol, fod pris rhyddhad wedi cael ei roddi.

I. Oddiwrth y siamplau wyf wedi eu dwyn, ni allwn ddysgu y buddioldeb o chwilio iaith yr Hen Destament, gyda golwg i ddeongli iaith y Newydd. Yr Apostolion a'r Efengylwyr oeddent Iuddewon, yn wastad yn gyfarwydd â'u hysgrythurau eu hunain. Ni allwn ni ddim rhyfeddu gan hynny, os cawn eu dull o ymadroddi yn cael ei

* Felly y mae Paul yn dywedyd mewn perthynas iddo ei hun ac Apolos, "Eithr yr hwn sydd yn plannu a'r hwn sydd yn dyfrhau, un ydynt;" 1 Cor. iii. 8.

effeithio yn fawr gan ysgrifeniadau ag oeddent hwy yn ddal yn y fath barch eithaf. Trwy gydmaru pethau ysbrydol â phethau ysbrydol, ac egluro un dadguddiad dwyfol trwy gymmorth un arall, ni allwn obeithio dyfod i ddeall holl gyngor Duw.

II. Y mae'r oruchwyliaeth efengylaidd yn cael ei darlunio yn gysson yn yr Ysgrythyr, megis yn ddyledus am ei dechreuad, nid i gariad a thaerni Crist, gydag anhawsder, yn gostegu Hollalluogrwydd llidiog; ond i ewyllys da ein Nefol Dad. Ei rydd rodd ef i ddynion yw hi. "Felly *y carodd* Duw y byd fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab." Ac nid oes un man yn y Testament Newydd, ag sydd yn desgrifio ein Harglwydd megis yn gwaredu dynolryw oddiwrth gyfiawnder yr Hollalluog, neu yn talu iawn neu bridwerth i attal ei ddialedd. Pan y mae Jehofa yn cael ei osod o'n blaen ni, megis ei *hun* yn prynu Israel oddiwrth ei holl anwireddau, pa bridwerth allwn ni ddychymmyg a gafodd ei dalu iddo ef, fel y troid heibio ei lid ef? Nid ydys byth yn dywedyd am bechaduriaid eu bod mewn caethiwed i Dduw, nac yn garcharorion nac yn gaethweision iddo, mewn amser blaenorol i'w prynedigaeth. Yn *ganlynol* i'r weithred ddedwydd honno y maent bob amser yn perthyn iddo ef. Nid oes dim cymmwysder yn y geiriau *prynedigaeth* a *phridwerth*, yn yr oruchwyliaeth efengylaidd, ond oddiar y meddwl o bersonoliad *pechod*, a'r dyb o'i fod ef yn *caethiwo*'r byd. Ac nid oes un ystyr *briodol* yn glymmedig â'r geiriau, pan arferir hwynt yn yr Ysgrythyr; ond hwy a fabwysiadir oddiwrth ymadrodd cyffredin, trwy gyfryngiad Moses a'r prophwydi. A bydded i'r sylwad hyn gael ei sefydlu ar y cof; os darfu i'r Hollalluog beidio cospi mewn canlyniad i gyfryngdod Crist, mai mewn canlyniad i wreiddiol drugaredd a charuaidd gymmwynasgarwch Duw, *y cyfryngodd Efe.—Commentaries and Essays.*

HENAFIAETH "YR ENW A'R NOD CYFRIN,"

Yn crbyn haeriadau Stephens o Ferthyr, *i geisio diweddaru, a gwatwor yr arferiad o honynt yn mysg Beirdd Cenedl y Cymry.*

ALLAN O'R "SEREN GOMER."

LLYTHYR IV.

Gwedi profi yn yr ail lythyr hynafiaeth y drychfeddwl am y Nôd mor hynod ag enw Menw ab y Teirgwaedd, oddiwrth ba un y derbyniodd Menw ei enw gyda'r Cymry; a dangos, yn y trydydd llythyr, fod ein Menw ni yr un â Menu India, a Menes yr Aifft, a'r unrhyw hanes yn cael ei roi am danynt; ac wedi dangos yno hefyd, yn fyr, fod hen gyfundrefn grefyddol India gwedi ei benthyca, fel y mae yn amlwg, oddiwrth y Nôd mawreddog uchod; ac wrth hyny, brofi y Nôd yn hynach na'r cyfryw gyfundrefn, er fod hono ryw lawer dros 4000 ml. oed; yr oeddwn yn meddwl, yn y llythyr hwn, profi tarddiad amlwg cyfundrefn grefyddol yr Aifft hefyd, oddiwrth y cyfryw Nôd hynafol o "Lun Enw Duw," neu y "Gair" cyntefig (yr hyn fuasai yn fwy dyddorawl na'r cwbl); a bod y gwahaniaeth yn y ddwy gyfundrefn yma, yn dybenu ar y gwahaniaeth oedd rhwng y ddau fodd y defnyddid y Nôd, yn hen gyfundrefn y Beirdd. Ond o herwydd na chefais y *Seren* hyd y 6fed dydd o'r mis hwn, a minau am ei gweled cyn dechreu ysgrifenu, aeth yn ry ddiweddar arnaf i ysgrifenu ar y pwnc dyddorawl hwnw; ac o'r herwydd, ni wnaf y tro hwn, ond anfon at y bachgen ryw sylwadau rhagbarotoawl i dderbyniad y llythyr hwnw.

Mae y fath grynswth o ddefnyddiau genyf ar y pen hwn, fel na wn, yn iawn, dyrnaid o ba fan o'r crŷg a gymeraf, i wneyd y llythyr hwn i fyny. Efallai mai rhyw bethau fel y canlyn allant fod o bwys iddo eu gwybod, ac i'w ddifyru, hyd nes y caiff y llythyr addawedig.

Tebyg nad amheua ein gwrthwynebydd, bod yn rhaid i bawb roddi y flaenoriaeth o barth hynafiaeth, i demlau y cylchau ceryg, neu y gorseddau Beirdd, yn anad unrhyw demlau ereill; yn nghyd a'u cysylltiad neilldnol hefyd â chenedl y Cymry. Yna, pan y gellir profi fod y Nod Cyfrin yn cael ei

gyfiunio yn ngosodiad y meini, ac yn gwneyd i fyny ran hanfodol o'r gorseddau hyn, fel y sylwasom o'r blaen; ac mai mewn cysylltiad â'r gorseddau hyn, yn unig, y'i ceir yn ei symlrwydd cyntefig (er fod llygriad o'r Nôd a'r Enw, yn nghyd a defodau ereill perthynol i'r hen Orsedd foreuol uchod, gwedi dylifo i lawr trwy oruchwyliaethau braidd bob temlau ereill); gesyd hyn eto, tu hwnt i bob dadl, hynafiaeth mawr y Nod, a hyny yn ei berthynas â'r Cymry; gyda pha rai yn unig y'i ceir yn ei ansawdd wreiddiol; a'i fod, nid yn unig y tu hwnt i hynafiaeth cyfundrefnau temlau hynaf y dwyrain, ond tu hwnt i hynafiaeth hen demlau y Main-gylchoedd.

Yn awr, ceir y Nôd Cyfrin, yn ei berffeithrwydd, gwedi ei gyfiunio yn ngosodiad y meini a wnaent i fyny hen Orsedd Farddawl Cor Gawr (*Stone-henge*); er ei fod yn anhawdd i neb, efallai, ond llygaid goleuedig y Bardd, ganfod hyny. Ond efallai y cenfydd y bachgen ef, gwedi y darlleno y llythyrau hyn,

Smith, yn ei lyfryn ar yr Orsedd uchod, a rydd ddarluniad manwl o honi; ac yn neilldiol o feini y Nôd, er na wyddai ef beth a arwyddai y cyfryw, na'u dyben godidog a phwysig. Felly, dyna "*Sun-dial Castell y Rhaglan*," (fel y geilw y brawd y cynllun roddai hen ysgrif gawd yn nghastell y Rhaglan, o ffurfiad gorsedd), gwedi ei gael tu allan i Gymru! Yr un modd gellir gweled y Nôd yn narluniad adferol y Dr. Stukeley o deml *Bryngwyddon;* yr hon a dybir yn hynach ddwywaith na Chôr Gawr; ac mai hyhi oedd hen deml glodfawr Tydain *(Apollo)* yn mysg yr *Hyperboreaid*, y sonia yr hen awdwyr Groegaidd am dani gyda chymaint clod. Dyna ergyd marwol i haeriadau y brawd eto, feddyliwn i.

Peth arall eto; ni ryfygodd y Cymry un amser, gyda'u cyfundrefn grefyddol, ddywedyd fod Duw gwedi ymddangos i neb erioed; y cwbl a amlygai o hono ei hun, fel y tybient hwy, oedd, yn ei waith, trwy beirianwaith mawreddog anian; a'r penaf peth a honent iddynt weled oedd, Llun ei Enw; ac o'r herwydd, galwent ef ei hun, "y Duw Cell."

Felly, golygai yr Aifftiaid y Goruchaf Dduw, yn "Dduw nid adwaenid," ond cymaint a amlygai o hono ei hun yn anian. Ei fod ef, yn ei oll, yn canolbwyntio ynddo ei hun Ei fod yn aros, o ran ei hanfod, mewn unigolrwydd; yn ei undeb, yn anamgyffredadwy i farwolion. Ac, o'r herwydd, addolent ef, fel yr addolai y Cymry ef, drwy ddwys fyfyrio ar, a rhyfeddu ei briodoliaethau, a hyny mewn perffaith ddystawrwydd; gan fynychu ei Enw Cyfrin yn y meddwl, i fod fel dwfr ar rôd yr hwyl, i'w chadw i droi. Yr un modd hefyd y gwna yr Indiaid, y dydd hwn: dull rhagorol.

Yr Enw Cyfrin, gan yr Aifftiaid, ar yr achlysur hwn, oedd, "Dywyllwch Anamgyffredadwy!" gan ei fynychu dair gwaith olynol. Arluniant yr Enw hwn â thair colofn gwmwl, yn cydgyfarfod tuag i fyny fel y Nod /|\. (Er mai tair colofn o oleuni, fel gyda'r Cymri, fuasai yn oreu, i ddynodi ei enw.) Yr oedd ei arwydd-lun fel hyn ganddynt ar yr allor yn nhemi *Isis*. Oddiyma cawn y sôn am Dduw yn y golofn gwmwl, yn "dywyllwch i'r Aifftiaid," ond yn "oleuni i Israel;" a dechreuad Enw "y Duw nid Adwaenir," yn mysg y Groegiaid. Nid ydym heb weled rhyw gymaint o ddylanwad y drychfeddwl pur ac athronyddol am y Nôd Cyfrin cyntefig, a gadwyd fyth yn ddihalog gyda'r Cymry, yn y dychymyg uchod o eiddo yr hen Aifftiaid.

Awgrym arall eto am hynafiaeth mawr y Nôd, i ddifyru ychydig ar y brawd, yw, yr hyn a ganlyn. Cawn lawer o sôn yn y *Puranas* Indiaidd (llyfrau a ysgrifenwyd, medd Col. F. Wilford, oesoedd diwybod cyn Cred, ac yn llawn o draddodiadau llawer hynach), am dduwies fendigaid *Swota Dwipa*, neu yr Ynys Wên (Prydain), ac iddi gael ei bodoliaeth yn debyg iawn fel y dywed y traddodiadau Cymreig, yn Rol yr Orsedd, i Menw ap Teirgwaedd gael ei fodoliaeth; sef, yn nghyswllt tri phaladr y Nôd. Ystyrir hi weithiau fel y wraig gyntaf, fel yr oedd yntau y dyn cyntaf; yn ferch y pelydr, fel yr oedd yntau yn fab y pelydr; weithiau yn fam llun y pelydr, fel yr oedd yntau yn dad y Nôd; bryd arall, yn wraig y pelydr, &c.

Galwant ei henw "y Dduwies Wen." Ganwyd hi, meddant, o'r *Trimurtti* (y tri phaladr), a hyny fel y canlyn; i'r tri duw (sef y tri phaladr) *Bramha*, *Vishnu*, a *Siva*, tra yn sefyll ar ben mynydd *Cailas*, (un o dri ban *Meru*—mynydd llys y beirdd) gyfeirio eu llygaid, a hyny yn y fath fodd, ag y bu i'w hedrychiad gyfarfod yn nghyd, mewn cynullbwnc (*focus*) fel hyn ⟹o; ac ar hyny, i'r forwyn ddwyfol lamu i fodoliaeth o'r cyfryw gynullbwnc neu lygad goleuni.

Ystyrir hi yn y llyfrau uchod, yn fath o fenyw driphlyg, a gwraig driphlyg i'r *Trimurtti*, yn cyferbynu pob un o'r tri; ac yn fath o drindod fenywaidd, a gwraig i'r drindod wrrywaidd, sef, *Bramha*, *Vishnu*, a *Siva*; ac o'r herwydd, galwant hi weithiau, *Tri-Cala-devi-Camari*. Darlunir y Dduwies Wên yma yn ardderchog, yn y *Varaha Purana;* yn nghyd a'i gwaith yn rhoi yni yn, ac yn cyfartalu holl orchwylwaith y *Creydd*, y *Cynaliydd*, a'r *Dinystrydd*

Dysgant fod ei henw yn cael ei gynwys mewn un llythyren, sef, I (yn gywir fel y dywedwn ninau, fod yr egwyddor fenywaidd yn Natur yn cael ei dangos yn mhaladr canol y Nôd; sef, I); ond yn ei ddull

treigliadol, daw, meddant, i Iva (Eva), sef unrhyw lythyrenau yn wreiddiol, I, ȧ, ṷ, neu /|\, a bod ei Henw Cyfrin yn cynwys holl lythyrenau yr egwyddor (fel y dywedwn ninau fod yr Enw Cyfrin yn cynwys holl lythyrenau y Goelbren); ac mai hi oedd fam pob dyn byw.

Preswylfod *Sweta-devi*, neu y Dduwies Wên, meddant, yw *Sweta Dwipa*, neu yr Ynys Wén; ei bod yn trigfanu hefyd yn yr Iwerddon a'r Alban; bod ei phreswylfod yn dri-onglog, ac yn perthyn iddi dri lliw, mai hi yw mam y *Vedas*—bod y *Vedas* yma yn ei chroth, ac mai hi yw y *Vedas*. Ei bod yn un o'r *Tri-murtti*—mai hi yw y *Tri-murtti*—mai hi yw eu hegni, ac mai hi yw mam y duwiau *Bramha*, *Vishnu*, a *Siva*.

Galwant hi hefyd *Sarasvati;* am ei bod yn dduwies yr awen, yn llywyddu dros bair celfau a gwybodau. Bryd arall, galwant hi *Gayatri*, a'r geiriau Cyfrin; o'r hon, meddant, y caiff y rhinweddol ei aileni, allan o'r dwfr, ac o'r gwynt (fel y dysgid am ein Beirdd ni eu bod yn cael eu haileni o Ceridwen, duwies yr Awen, ac o'r dwfr, ac o'r gwynt; ac fel y cawn fod Cristionogaeth hyd eto, yn ail eni o Dduw, o ddwfr, ac o'r ysbryd; gan osod enw y Drindod i sefyll am y *Gayatri* uchod). Yr un modd cawn fod y *Braminiaid* hefyd, er yr oesoedd mwyaf cyntefig, yn golygu eu hunain yn ail-enedigion o'r dduwies driphlyg uchod.

Duwies arall (os arall hefyd) a gyfaddefir yn hen ysgrifeniadau cyntefig y dwyrain, ei geni yn yr Ynys Wèn, preswylfod y Cymry, yw, *Latona* neu *Lacshmi;* sef, yr un hefyd a Ceres neu Ceridwen, duwies y ffrwythau; yr hon a ystyrir hefyd mewn rhyw olwg neillduol yn y Cyfrinion, yn "Fam yr Haul," a "mam" ddychymygol y "Bardd." Mewn rhan, gellir golygu hon yr un a'r Dduwies Wén, ac mewn rhan yn wahanol, ac yn gyfyngach yn ei harwyddocâd a'i llywodraeth; o herwydd nid yw hi wraig ond i un o egwyddorion neu bynciau y Nôd; pan y cawn fod y Dduwies Wén yn driphlyg, ac yn wraig i'r tri. Weithiau galwai y Groegiaid hi *Latona;* yr Indiaid, *Lacshmi;* a'r Aifftiaid, *Isis*, a *Mout*, sef, "Y Fam;" ac yn arwyddo yr *Egwyddor Fenywaidd*, neu y fam fawr gyffredinol yn Natur; yr hon sydd yn cynyrchu, ac yn porthi, pob peth byw. Cynrychiolid yr egwyddor hon yn arwydd y Forwyn; am mai dan ddylanwad paladr yr Haul a'r Forwyn yr addfedir ffrwythau i fod yn gynaliaeth bywiolion, ac y diogelir hâd; y rhai, dan ddylanwad paladr yr Haul a'r Hwrdd, neu yr *Egwyddor fawr Wrrywaidd*, gânt gynhyrfiad i egino a thyfu, er adnewyddu gwyneb y ddaear.

Cyfaddefai y Groegiaid, fel y gellir gweled yn eu hen ysgrifiau, mai gyda ni, yn yr Ynysoedd hyn, y ganwyd gynt y dduwies *Latona*, mam *Apollo* (h.y., Llâd, neu Ceridwen, mam yr Haul; mam Tydain, neu fam y Bardd). A'r hyn feddylient wrth y geni yma (fel yr ymddengys wrth chwedlau yr Indiaid) oedd, y dychymygwyd arwydd y Forwyn. Ac o'r herwydd, dysgent ein bod ni, yr *Hyperboreaid* (fel y'n galwant), yn garedig iawn tuag at *Apollo*, ei mab (yr haul neu y Bardd); fod genym deml grongylchog iddo (Bryngwyddon, odid); ei fod yn ymweled â ni ar ein huchelwyliau; a'i fod wrth ei fodd yn swn ein caniadau, yn chwareu ei delyn, ac yn dawnsio mewn tês ysplenydd, o wyl Alban Eilir, hyd godiad y Twr Sêr ddiwedd yr haf.

Llyfrau India, megys y *Varaha Purana*, a rhai ereill, a ddysgant i *Lacshmi* gael ei rhithio, a'i geni yn yr Ynys Wén, ac mai wrth gorddi y môr a Mynydd *Mandar*—rhyfedd orchwyl!—yr hyn a gymerodd le, meddant, rhwng tri phentir y tair Ynys Ddedwydd, sef, Prydain, Alban, a'r Iwerddon (lle gellir gweled, megys y rhan weddilledig o'r cyfryw fynydd Mandar, yn aros hyd y dydd hwn, dan yr enw *Manw* (*Isle of Man*), y ganwyd y dduwies *Lacshmi* (sef, arwydd y Forwyn). Bu y corddi hwn, meddant, yn moreuol oesoedd y byd, a hyny i'r diben o gael allan "dwfr anfarwoldeb," &c.—yr unrhyw chwedl, o'r dechreuad, fel y gellir profi, â berwi Pair Ceridwen, neu Bair Awen a gwybodau, sef, gweithio gorsedd y Beirdd gyda ni. I'r dduwies hon, gwedi corddi am flynyddoedd, lamu i fyny i fodoliaeth o drwyth llaethog y môr; a hyny yn union gyferbyn a *Vishnu* (sef yr Egwyddor Wrrywaidd, neu baladr yr Haul a'r Hwrdd). Fod yr olwg arni yn fawreddog o hardd—iddi hi a *Vishnu* ddechreu llygad-loni yn union ar eu gilydd. Gofynwyd gwraig i ba un o'r tri y cawsai fod, sef, pa un ai eiddo *Brahma*, *Vishnu*, neu *Siva?* atebwyd yu union, ei bod yn ry ddiweddar—fod y pleidiau gwedi ymserchu eisoes yn ry bell; a'r diwedd fu, yn ddioedi, eu priodi gan dduw y môr. Yn awr, dyna y ddwy egwyddor fawr *fenywaidd* a *gwrrywaidd* yn Natur, y rhai sydd gwedi eu priodi yn nghyd yn mhaladr canol y Nôd Cyfrin. Ac mewn dullwedd arall ar y Nôd, gwnant ddau baladr cyferbyniol; a'r Bardd, neu eu mab, yn y canol.

Oddiar y golygiadau hyn yu mherthynas i'r Nôd, dysga y "Cyfrinion" i'r bardd, mai mab Anian oedd i fod—pur a dihalog fab ei fam—i addysgu ei gwersi i'r plant.

Yr oedd, yn ol y "Cyfrinion," i fod hefyd yn fab Enw Duw, sef, yr amlygiad o Dduw drwy y ddwy egwyddor uchod yn nghyd, a thrwy y ddwy egwyddor arall, a ddynodir yn y Nod; sef, yr egwyddor *greawl*, a'r egwyddor *ddinystriol*, ac fel mab Enw Duw, yr

oedd i fod yn genad Duw, i ddysgu gwersi y Tad, sef llafar Duw yn neddfau Natur; ac i gario parhad o'r GAIR cyntefig, fu yn creu a threfnu y byd anianol, yn y blaen, i drefnu a llywyddu y byd moesol.

Hefyd, yr oedd y Bardd i fod yn fab Haul, ac i gynrychioli yr Haul yn y byd moesol, gan ddylanwadu yno fel oedd yr Haul yn y byd anianol. Cawn roddi eglurhad gwell o hyn, ondodid, yn y llythyr nesaf.

Yn awr, fel y golygid arwydd y *Forwyn* yn fam noddawl bywiolion—yn dduwies amaethyddiaeth, cynauaf, a bugeiliaeth, gosododd Sywedyddion cyntefig y byd, hwythau, arwydd y *Sarff*, i gynrychioli egwyddor y Drwg yn Annwn y gronen serenog, a gwrthwynebydd y Forwyn, fel duwies amaethyddiaeth a bugeilyddiaeth, am mai dan ei dylanwad hi, sef y Sarff, tra yr Haul ynddi, y cwympai y dail, y syrthiai y ffrwythau, ac y diflanai twf; ac felly, mewn rhan, cynrychiolai y dinystriydd. Ac hefyd, fel y golygent yr Haul, Alban Elfed, megys yn cael ei eni o'r *Forwyn*, ac i waered ag ef i ymladd â'r Sarff, nes marw ar gyfnod dydd byr, Alban Arthan, defnyddiwyd y gymhariaeth gan Orsedd y Beirdd, Fod y Bardd, yntau, i fod yn yr un modd wrth ei adduned, yn ol ei eni o Ceridwen, i gyhoeddi rhyfel ac ymladd yn erbyn anras y byd moesol; a bod yn foddlawn i aberthu ei fywyd er mwyn y lles cyffredinol.

Y pedair egwyddor foesawl fawr, yn cyferbynu pedwar pwnc llun Enw Duw ar y Nef, oeddent Gwirionedd, Heddwch, Goddefgarwch, a Rhyddid—y peth cyntaf oedd dwyn dynion yn wyr dros y gwir, fel y gallasid cael Heddwch; yna, yn ol cael heddwch, fel y gallasid ei gynal, yr oedd yn rhaid dysgu yr egwyddor o Oddefgarwch; ac yn ol dysgu a dyfod i weithredu y tair egwyddor hyn, gellid dysgu a rhoi i ddynion eu Rhyddid. ac nid cynt.

Fel hyn, wrth natur y gyfundrefn, gwr oedd y Bardd i fod yn glamp o Rinwedd; yn siampl o Oddefgarwch; yn "bont neu was i bawb," i'w cyfarwyddo yn rad, a'i gynaliaeth yn rad iddo yntau, pa le bynag yr elai; ac er ei fod "yn feistr ar bawb," yr oedd i ddysgu "rhoi y cleddyf i'w wain," a gweithio ei ffordd yn mlaen i wella y byd drwy allu moesol. Yr oedd ef i fod yn flaenor, deddfwr. a iachawdwr y genedl.

Fel yr oedd y gwir Fardd cyntefig, bob amser, ac yn neillduol tra yn Ngorsedd, yn fab Enw Duw; sef /|\, ac yn Llafar Duw yn y hyd moesol, ac yn cael ei eni o'r *forwyn* Ceridwen (fel y cawn dangos yn eglurach yn y llythyr nesaf); felly cawn fod yr Indiaid, yr Aifftiaid, a'r Groegiaid, (yn eu dyeithrwch o'r Cyfrinion, a gwir ansawdd y gyfundrefn Farddawl), gwedi cynyg, rai troion, llabio yn nghyd y cymeriad hwn, ag oedd, fel y mae yn debyg, gwedi bod mor glodfawr mewn rhyw amser mwy boreuol.

Math o gymeriad Barddol amherffaith, gwedi ei drwsio i fyny â llawer o ofergoeledd, oedd eu hiachawdwyr hwy. Dyna *Budda*, un o iachawdwyr India, ymddangosodd yno er ys mwy na 4000 o flynyddoedd yn ol (fel y dysg eu hen lyfrau), y duw *Vishnu*, neu y person canol yn eu trindod, gwedi ymgnawdoli, a'i eni o'r *Forwyn*, oedd hwnw. Felly eu *Crishna* hefyd, iachawdwr arall; *Vishnu* gwedi ymgnawdoli, a'i eni o Forwyn (fel y dysga rai o'u llyfrau), oedd yntau; ond yr oedd eu heneidiau dynol, meddent, yn dyfod yn wastad o'r Ynys Wén (sef, eneidiau rhai o'n Beirdd ymadawedig ni, y Cymry, yn cael eu trosglwyddo yno).

Felly *Thoth*, yr Aifft—mab duw, ganedig o'r Forwyn, oedd hwnw hefyd—mab *Amoun*, sef, yr un a *Jupiter*, neu IAU-DAD, sef, /|\ yr un hefyd a'r egwyddor wrrywaidd yn arwydd yr Hwrdd: ac o'r herwydd, y tynent lun person y tad ag iddo ben hwrdd.

Yr un modd *Theut* y Phoenicaid, a *Hermes* y Groegiaid, oedd fab y duw IAU; ac wedi ei eni, meddent, o'r Forwyn *Latona*, sef yr un a Cheridwen, ac arwydd y Forwyn.

Ond nid oedd un o'r cymeriadau uchod yn wir Feirdd; ffug oeddynt, gwedi eu trwsio i fyny gan ddychymyg, a'u cynyrchu gyda chyfundraethau crefyddol llygredig, gwedi colli gwreiddiolrwydd y cyntlun; pan oedd, ac y mae eto, gwir Fardd y Main-gylchoedd, a'i gyfundrefn oll, yn seiliedig ar ffeithiau anianol; ac yn meddu y GWIR yn erbyn holl gyfundraethau y twyll a'r ud.

Math o Rinon, a chymeriad hynod mewn oes a chenedl, yw gwir Fardd: a gwynfyd, pe gallem gael un bob oes yn Nghymru. Mor ddigrif clywed cynifer o ddynionach ar hyd a lled ein gwlad, yn y dyddiau hyn, yn galw eu gilydd yn Feirdd ac yn falch o'u teitlau; pan, dim yn y byd ond eu bod yn gallu prydyddu. Gwir eu bod yn brydyddion da; a bod "meddu awen wrth gerdd," yn ol y Trioedd, yn un o'r cymhwysderau gofynai i dderbyn Urdd Bardd; o herwydd ei fod i fod yn athraw, ac mai drwy brydyddiaeth gynt yr addysgent y bobl yn eu hathroniaeth foesol. Yr oedd "cymeriad a chyneddfau da," yn anhebgorol hefyd; ond nid hynyna oedd y prif bwnc—"Gwybod CYFRINION BARDDAS," oedd yn rhoi yr enw BARDD. Yr un peth sydd yn angen eto. Ond cyn cael hyny, rhaid cael cymeradwyaeth prawf, a derbyniad trwy urdd rheolaidd yn Ngorsedd, a dysgu y Cyfrinion. Yna, gellir arddel yr enw Bardd gyda chlod; bydd yn gwybod y "Gwir yn erbyn y Byd," ac yn "feistr ar bawb."

Nid llai digrif oedd y brawd hefyd, pan

yn cynyg ysgrifenu ar, ac egluro un o'r prif Gyfrinion, pan na wyddai fwy am danynt na'r twrch. Ac mor watworllyd y dechreuai y brawd anwyl dynu ei law drosom hefyd! Cyn yr ysgrifeno lawer mwyach, gallai fod yn dda iddo ef ymostwng, i ddyfod yn droednoeth bennoeth atom ni, "troednoethiaid y Maen Chwyf," i dderbyn ychydig wersi. Na fydded ry falch gan dybio y byddai yn iselhau ei hun—mabwysiadodd Duw Moses ein Defodau; ac ni welodd Moses, yntau, er ei fagu yn dywysog, ddim yn ormod (pan cyn hyny yr oedd fel Taliesin, gwedi bod yn ei gorwgl llafrwyn, yn cael ei eni o'r dwfr ac o'r gwynt), ïe, ddim yn ormod cydymffurfio â hen ddefodau ag oeddynt gwedi bod mor glodfawr yn y byd er ys cynifer oes. Diosgodd ei esgidiau yn union ar orchymyn ei Athraw Gorseddog (yr hwn a safai yn y Llygad Goleuni, o fewn perth mor ddiddifa a meini y Beirdd), pan yn treiddio i fewn cylch y cynghrair santaidd hwnw, i gael ei urddo yn Fardd a Blaenor cenedl, i ddeddfu ac arwain Israel o'r Aifft i Ganaan; a gwnaeth hyn yn wyneb Haul a Llygad Goleuni, ar fynydd Horeb. A dyna'r pryd penodol y derbyniodd hefyd yr Enw Cyfrin IE-HO-VAH, y bu y brawd yn son am dano. Gwel Exod. iii. 1—15.

Yn awr, peth hynod fod y brawd, ag yntau, fel y gellir tybied, mor Feibl-grefyddol, yn beiddio dywedyd, "Nad oes ganddo ef nemawr o barch i'r Defodau uchod, ac mai gweddillion o dwyll ac anwybodaeth oesoedd o dywyllwch a choelgrefydd ydynt, ac mai gwagedd o wagedd yw y cwbl!" Efallai y daw o ychydig i ychydig i wybod gwell.

Felly, nid oes genyf ond terfynu y llythyr hwn, mewn gobaith y caf weled y cyfaill parchus, ar y 21ain o'r mis hwn, wrth Orsedd y Maen Chwyf, yn gwneuthur fel Moses.

Gorsed B.Y.P., ger Pont-y-ty-Pridd. BARDD CYFRIN, *Sef Ieuan Myfyr.*

Hanesion Cartrefol a Thramor.

LLIFOGYDD DINYSTRIOL.

Nos Wener a dydd Sadwrn yr 8fed a'r 9fed o Orphenaf, ymwelwyd â rhanau o'r Deheudir gan ystorm ddychrynllyd a llifogydd dinystriol. Cafodd llawer iawn o bontydd eu hysgubo ymaith yn llwyr gan y llifeiriant disymwth yn siroedd Caerfyddin, Morganwg, a Brycheiniog; a bu colled mawr ar feddiannau yn Saint Clears, Yr Hen-dy-gwyn, ac Aberhonddu a'u cylchoedd; fel hefyd ar lan yr afonydd a lifant i'r Wysg ar Wy. Preswylfod Mrs. Lawrence, yn Aberddw, ger Llanfairmuallt, gyda phumb o'r preswylwyr a olchwyd ymaith yn llwyr. Cafwyd y cyrph rai milldiroedd o'r lle, pa rai oeddynt naill ai yn gwbl ddiosgedig, neu wedi gwisgo mewn rhan, fel be buasent wedi eu deffroi yn ddisymwth o'u cwsg. Taflwyd tai eraill i lawr ger Llandrindod, gyda cholled bywydau. Y mae niferoedd lawer o deuluoedd, tlawd a chyfoethog, wedi cael achos trwm i gofio y llifeiriant aruthrol hwn.

Cafwyd colledion mawr hefyd yn siroedd Henffordd a Chaerloyw trwy orlifiad afonydd.

Y SENEDD A'R WEINYDDIAETH.

Y mae yr ysgrif er gosod tal ar etifeddiaethau (*Succession Bill*), wedi ei bassio, er gwaethaf gwrthwynebiad Iarll Derby a'i blaid. Tebyg y llwydda y Weinyddiaeth i gario eu prif fesurau eraill. Ond o herwydd ei bod wedi myned mor ddiweddar yr ydys wedi gorfod gohirio rhai ysgrifau hyd yr eisteddfod nesaf. Hyd yn hyn y mae y weinyddiaeth wedi gwrthod rhoddi hysbysiad cyflawn o'u mesurau a'u gohebiaeth gyda golwg ar yr ymrafael rhwng Rwssia a Thwrci. Ond y mae yn dra thebygol y gwnant hyny cyn gollyngiad y Senedd.

Y FYDDIN A'R LLYNGES.

Yn ystod y mis diweddaf, y mae miloedd lawer o'n milwyr wedi bod yn myned trwy eu hymarferiadau milwriaethol mewn gwersyllfa yn *Chobham*, ger *Windsor*. Ac y mae llynges fawr iawn wedi ymgasglu yn *Spithead*, gyda'r un dyben. Ar yr un pryd y mae ymdangosiadau cyffelyb yn cymeryd lle yn Ffraingc.

Y CYFANDIR.

Y mae materion dwyreinbarth Ewrop, yn parhau i dynu sylw cyffredinol. Nid yw y rhyfel rhwng Rwssia a Thwrci, wedi torri allan yn weithredol. Yr hyn lleiaf nid oes dim ymladd wedi cymeryd lle rhyngddynt. Ond y mae y Rwssiaid wedi croesi y *Pruth*, ac y maent mewn meddiant o *Moldavia* a *Wallachia*—y tywysogaethau ydynt ar lan ogleddol y *Danube*, pa rhai ydynt mewn rhan yn meddu ar hunan-lywodraeth, ac mewn rhan dan awdurdod a llywodraeth Twrci. Hysbysir nid fod y Rwssiaid yn ymdrechgar dros ben i geisio ennill y trigolion i'w

plaid, ac i gadarnhau yr amddiffynfaoedd, &c., fel pe na baent ar fedr ymadael am ryw dymor. Y Tyrciaid o'r tu arall ydynt yn sefyll ar eu hamddiffyniad y tu dehau i'r *Danube*, ac y maent wedi gwneud paratoadau mawr tuag at wrthsefyll unrhyw ymosodiad ar ran y Rwssiaid. Y mae llyngesi Ffraingc a Lloegr hyd yma ger llaw y *Dardanelles*.

Yn y cyhoeddiad a roddodd yr Ymerawdwr Nicholas allan ar ei waith yn anfon ei fyddinoedd i gymeryd meddiant o'r tywysogaethau, y mae yn ymddangos yn grefyddol dros ben Ac y mae lle i ofni ei fod wrth appelio felly at benboethni ei ddeiliaid, wedi cynneu tân nas ddiffoddir yn rhwydd. Proffesa hefyd ei fod yn hyn i gyd yn lletya bwriadau heddychol; ond nid oes neb yn ei goelio. Yn ngwyneb gwrthdystiad Twrci a Ffraingc, a Lloegr hefyd, mae'n debyg, yn erbyn yr ymosodiad anghyfiawn, ni oddefir hwyrach iddo fod mewn meddiant heddychol o'i ysglyfaith. Ac yntau, nis gall alw ei fyddinoedd yn ol heb iddo gael rhyw esgus i guddio ei gywilydd, os y gall wneud hyny yn awr heb berygl oddiwrth ei ddeiliaid ei hun. Ac o'r tu arall fel y gellid ei ddisgwyl, y mae penboethni crefyddol y Tyrciaid erbyn hyn wedi cael ei gyffroi gymaint fel mai o braidd yr attelir hwy rhag rhuthro i ryfel. Ymddengys fod llawer, os nid y cwbl, yn ymddibynu ar benderfynoldeb Ffraingc a Lloegr. Yn ystod y mis diweddaf y mae llawer o bryder wedi bod gyda golwg ar y cwestiwn—Pa un ai rhyfel ai heddwch fydd. Yr y'm yn wynebu ar Awst, mewn cryn ansicrwydd ynghylch y peth. Disgwylir yn bryderus am yr atteb a enfyn y Czar yn ol i'r cynnygiadau a anfonwyd iddo gan y Sultan a'i cefnogwyr. Diau y bydd ein darllenwyr wedi clywed am y penderfyniad cyn y gwelont ein Rhifyn nesaf.

Marwolaethau.

Dydd Llun, yr 28ain o Fawrth, Morgan Morgans, gynt o Ysgyborwen, Aberdâr, yn 63 oed. Yr oedd yn ddyn cariadus, ac yn cael ei barchu yn fawr gan y sawl a'i adwaenai, am ei barodrwydd i wneud cymmwynas. Er nad oedd yn grefyddwr, yr oedd yn barod i roi llaw o gymmorth at achosion crefydd, ac at *Undodiaeth* yn enwedig. Dioddefodd hir gystudd yn amyneddgar iawn, gan ymostwng i ewyllys ei Greawdwr. Pan ar fin ymadael, cynghorai ei blant yn ddwys, i fod yn heddychlon a'u gilydd, a'u cymydogion, ac a phob dyn—i fod yn onest yn eu holl gyflawniadau—i ddilyn rhinwedd a daioni—ac i ymostwng i ewyllys Duw dan bob amgylchiad. Y mae saith o blant a pherthynasau anwyl eraill yn galaru ar ei ol—ond nid fel rhai "heb obaith." Mercher canlynol, hebryngwyd ei gorph gan luaws mawr, ynghyd â chorph hen gyfaill arall, tua'r Hen Dŷ Cwrdd; pan y pregethodd y Parch. J. James, Gellionnen, yn gymmwysiadol ar yr achlysur, oddiwrth 1 Cor. xv. 14. Claddwyd ef yn mynwen Eglwys y Plwyf.

Ffarwel Morgan, ti'n gadewaist,
Ti ddiengaist, do, i'r bedd—
Gado wne'st dy holl gyfeillion
Yn alarus iawn eu gwedd.

Ond mae'n gobaith 'cawn dy weled
Etto'n rhydd, heb boen na chlwy';
Draw ar fryniau anfarwoldeb,
Lle ni raid ofni 'madael mwy.

Aberdâr. EIDDIL GLAN CYNON.

Ebrill 4ydd, Mr. Benjamin Saunders, Meistr *moulders*, yng ngwaith haiarn Cyfarthfa, yn 78 mlwydd oed. Claddwyd ef yn monwent Hen-dy-cwrdd y Cefn, dydd Iau canlynol. Ar yr achlysur ymgynullodd lliaws ynghyd, yn eu plith Mr. Crawshay a Mr. Jones, Godre'rcoed, yngyd a holl flaenoriaid y gwaith. Bu Mr. Saunders yng ngwasanaeth Mr. Crawshay am 46 mlynedd ac yn ystod yr holl amser hwn ni weithiodd gymaint a diwrnod dan un meistr arall. Yr oedd yn un o sylfaenwyr cyntaf y *Philosophical Society* gynt, y bu cymmaint o son am dani; ac er ys ychydig flynyddau yn ol gwnaeth ymdrech mawr i'w hadnewyddu, trwy dderbyn aelodau newydd am 10s. yr un, a llwyddodd i raddau i gael ei amcan i ben; ond bu fyw i'w gweled, er ei ofid, yn difianu yr ail waith. Yr oedd wedi bod yn diwyd iawn i gyrraedd gwybodaeth trwy ei oes, a phe cawsai fanteision yn ieuangc gallasai fod ymhlith enwogion ei wlad. Dan anhawsderau mawrion yr oedd wedi llwyddo i gael gafael ar lawer o wybodaeth mewn *Mechanics*, *Geography*, *y Globes*, ac *Astronomy*. Yr oedd yn hynod o fedrus i ddyfeisio a gwneuthur peirianau bychain at bwyso lleithder, mesur gwlaw, ac amrywiol o rai eraill. Gwnaeth un at ddangos cylchdro y ddaear oddiamgylch ei phegynau ac oddiamgylch yr haul. Yr oedd ganddo ganwyll fer ar waelod y peiriant at ddangos dydd a nos a gwahanol dymhorau y flwyddyn. Cadwai gyfrif manwl o stad yr aer, llaethder, gwlaw, &c., bob dydd yn ei ddydd, ynghyd a dygwyddiadau ereill o bwys. Yr oedd, er mor helaeth ac amrywiol ei wybodaeth, yn ddyn hunan-ymwadol iawn. Ni chlywais ef erioed yn dywedyd drwg am neb. Ond, fel y dywedais, yr oedd yn hunan-ymwadol iawn gyda golwg ar ei wybodaeth, os dim, yr oedd yn ormod felly. Gadawodd chwiorydd a pherthynasau galarus i wylo ar ei ol. E.

Barddoniaeth.

PENNILLION

A gyfansoddwyd wedi clywed y Parch. John Davies, Castellnedd, yn traddodi pregeth yn y Gellionen, Sul, y 4ydd o Orphenaf, 1852. Ei destun oedd Galatiaid v. 1.

Dysgeidiaeth Crist ein Hathraw dwys,
Sydd bur a thra ragorol;
Ei eiriau ynt o ddirfawr bwys,
A'u rhad o dyfiad dwyfol.

I ryddid galwodd Crist y byd,
Trwy ddysgu egwyddorion—
Ei Dduw, a'i Dad, o'r nefoedd glyd,
Sydd oll yn gywir union.

Yn yr wybodaeth helaeth hon,
Mae llwydd a gwir ddedwyddwch;
Ei ryddid wna wir freiniol fron,
Ac ynthi, da chwi sefwch.

Yn rhyddion y'ch dan Grist eich Pen,
Na 'munwch mwy â gau-gred;
Na chwaeth gydseinio dan y nen,
I'ch llethu dan gaethiwed.

Arwaina Crist at synwyr da,
At anian a'i gwirionedd;
At ddwyfol wledd datguddiad, a
Dedwyddwch pur diddiwedd.

Anfeidrol werth gwirionedd Crist,
A'ch galwodd chwi i ryddid;
Am hynny pa'm y byddwch drist?
Eich rhan yw Pren y bywyd.

Nid oes awdurdod dan y nef,
Ond doeth ddysgeidiaeth Iesu;
I ddwyn dynolryw i'r ffydd gref,
Iach reol i bawb ei chredu.

Blaenoriaid byd! beth ydynt hwy,
Ond gorwael feib anhaeledd?
Enynant fyd trwy boethder nwy,
Ni ranant unrhyw rinwedd.

Gormesant feddwl dyn, O, Dad!
Meib anmhwyll didrugaredd:
Eu gwyllys yw pob briw, pob brad,
Ymwriant am ffug fawredd.

Anwybod yw eu lloches gref,
Ac yntho ymhyfrydant;
Am lwybrau doeth, a iawnder nef,
Un synwyr byth ni syniant.

Mae nattur a datguddiad Crist,
Yn un mewn nerth ac urddas,
I'r rhain gogwydded pob dyn glust,
Daw'r nef i'n rhan yn deyrnas.

Y neb ymroddo 'i hun yn llwyr,
I Grist a'i bur wyddorion;
Gan garu ei ddeddfau forau a hwyr,
Gwir yw, caiff nefol goron.

Er fod dan sarn rhagfarnwyr cas,
Er bod dan wawd gelynion;
Y diwedd fydd cael nef o ras,
Hynodol Duw dad union.

Dwys gydnabyddai Crist ei Dduw,
Yn wrthrych ei addoliad;
'Nawr efelychwch Iesu gwiw,
Gan roi i'ch Naf ddyrchafiad.

Fe'ch dygodd, do i'r freiniol fro,
Lle triga pur wirionedd;
Lle hefyd mae (boed bythol go'),
Eneinwych nefol rinwedd.

Addoli ei Dduw a'i Dad wnai ef,
Fel cywir athraw ffyddon,
Datguddio wnaeth ras teyrnas nef,
A'i doniau i bob dynion.

Dangosodd ef nodweddiad Duw,
Ei Dad, a Chrewr anian;
A'r ffordd i chwi gael bythol fyw,
A throediodd hon ei hunan.

Gan hynny chwi Gristnogion mâd,
Gwrandewch ar lais yr Iesu;
Coleddwch wir ei nefol rad,
Hoff addas yw'i gyffesu.

Byth mwy dan iau caethiwed croes,
A gormes anwybodaeth;
Na rowch eich gyddfau mwy'n eich oes,
Daeth dydd eich gwaredigaeth.

Yr Iôn o'i rád a'i gariad rydd,
I'ch goron y gogoniant;
Mewn gwlad lle mae tragwyddol ddydd,
A'i holl dda er eich llwyddiant.

Yno ni bydd un trawsder trwch,
Na gofid idd ei gofio,
Ond angenrhaid i'r llaid a llwch,
Trwy Dduw yn nerthol weithio.

Y duwiol rai o rad yr Ion,
Dderbyniant goron gwynfyd;
Heb wae, heb flinder, heb un po'n,
Hil hyfwyn yn eu heilfyd.

Un teulu ynt, un tawel iawn,
Yr *Undod* mawr addolant;
Un ffydd a'r Iesu, a'r un ddawn,
Mor anwyl yr ymunant.

Un mewn egwyddor, un mewn dysg,
Un hefyd mewn gweithrediad;
Un yn mhob dim, ac yn eu mysg,
Gwres addwyn, llwys addoliad.

Gwrandawr.

PEN-Y-BONT ARGRAFFWYD GAN W. LEYSHON.